

Dinas a Sir Abertawe

Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2011-12

**City and County of Swansea
Dinas a Sir Abertawe**



1	Rhagair	Tudalen 4
2	Ein Cenhadaeth	Tudalen 5
3	Rhan 1 - Crynodeb Gweithredol (gan gynnwys asesiad cyffredinol)	Tudalen 8
4	Rhan 2 – Cynnydd wrth gyflawni blaenoriaethau gwella'r Cyngor yn 2011/12	Tudalen 19
40.1	Amcan Gwella 1: Sicrhau bod gan oedolion ifanc, pobl hŷn a gofalwyr fwy o ddewis a rheolaeth dros y gefnogaeth y maent yn ei derbyn drwy drawsnewid y gwasanaethau cymdeithasol i oedolion.	Tudalen 20
4.2	Amcan Gwella 2: Sicrhau bod plant diamddiffyn yn cael eu diogelu a'u cefnogi drwy gynnal a pharhau â gwelliannau i'r gwasanaethau plant a theuluoedd.	Tudalen 25
4.3	Amcan Gwella 3: Gwella deilliannau dysgu a helpu disgyblion i gyflawni eu potensial	Tudalen 31
4.4	Amcan Gwella 4: Lleihau gwastraff a chynnyddu compostio ac ailgylchu drwy hyrwyddo a hwyluso cyflwyno gwasanaethau rheoli gwastraff ac ailgylchu	Tudalen 38

4.5	Amcan Gwella 5: Gwella cyflogadwyedd pobl drwy gynyddu effaith rhaglen adfywio'r cyngor i gynnig a hwyluso hyfforddiant a lleoliadau gwaith	Tudalen 42
5	Rhan 3 - Gwybodaeth am berfformiad a sut mae'n cael ei defnyddio	Tudalen 46
6	Rhan 4 - Cydweithredu ag eraill yn 2011/12	Tudalen 51
7	Ble i gael mwy o wybodaeth	Tudalen 56

Rhagair

Mae'n bleser gennym gyflwyno Adolygiad Perfformiad Blynyddol Dinas a Sir Abertawe 2011-12. Mae'r adolygiad hwn yn disgrifio'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol wrth gyflawni blaenoriaethau gwelliannau'r cyngor, sef yr 'Amcanion Gwella' a ddisgrifir yng Nghynllun Gwella Corfforaethol 2011-12 y flwyddyn honno, 'Cyflwyno Canlyniadau o Bwys'.

Mae'r adolygiad yn dangos y swm enfawr o waith da a wnaed yn ystod y flwyddyn flaenorol ar gyfer pobl Abertawe. Cafwyd cynnydd da iawn wrth gyflwyno'n blaenoriaethau ynglŷn â chymunedau cynaliadwy, perfformiad economaidd gwell, gofalu am bobl ddiamddiffyn a diogelu plant a phobl ifanc a hynny mewn sefyllfa economaidd anodd - heb anghofio'r amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd heriol ac effaith y dirwasgiad.

Mae'n debyg y bydd newid pellach a pharhaus yn ystod y blynyddoedd nesaf wrth i awdurdodau lleol addasu i lai o adnoddau a cheisio ffyrdd newydd o gyflwyno gwasanaethau. Bydd mwy o bwyslais eto ar gynyddu effeithlonrwydd, gweithio gydag awdurdodau eraill i ddarparu gwasanaethau a chanolbwyntio eto ar amddiffyn y gwasanaethau rheng flaen a ddarperir.

Ar hyn o bryd, nid oes gan y cyngor y camau cywir ar waith bob amser i ateb y cwestiwn 'a oes rhywun yn well ei fyd?' o ganlyniad i'r gwaith gwella y mae wedi ymgymryd ag ef. Bydd y cyngor yn ceisio mynd i'r afael â hyn dros y flwyddyn nesaf oherwydd bydd dinasyddion a'u buddiannau yn greiddiol i'r newid hwn, a bydd awdurdodau lleol yn mesur llwyddiant drwy ofyn pa wahaniaeth a gafwyd i'r dinasyddion sy'n defnyddio ein gwasanaethau.

Rydym yn awgrymu y bydd **Rhan 1 - Crynodeb Gweithredol** yn rhoi digon o wybodaeth a manylion ar gyfer y rhan fwyaf o anghenion y darllenydd cyffredin. Os oes angen mwy o fanylion neu fwy o wybodaeth dechnegol arnoch, bydd hynny yn **Rhan 2** ymlaen.

Ein Cenhadaeth

CYFLWYNO GWASANAETHAU O SAFON AR GYFER ABERTAWE FWY GWYRDD, DIOGEL A LLEWYRCHUS.

Beth yw'r weledigaeth a rennir ar gyfer Abertawe?

Erbyn 2020, y bydd Abertawe'n ddinas Ewropeaidd unigryw. Creu Dinas a Sir y mae'r canlynol yn wir amdani:

- lle gwych i fyw ynddo
- sy'n cynnig dechrau gwych mewn bywyd
- sy'n darparu cyfleoedd addysg ardderchog
- sy'n ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel
- sy'n cynnal economi lewyrchus
- sy'n cynnal a hyrwyddo iechyd da
- sy'n darparu'r gwasanaethau gorau posib.

Beth yw ein hamcanion cymunedol?

1. Gwella amgylchedd Abertawe i bawb
2. Creu gwell Abertawe i'r holl blant a phobl ifanc
3. Sicrhau cyfleoedd addysg rhagorol i bawb yn Abertawe
4. Gwneud Abertawe'n fwy diogel i bawb
5. Gwneud Abertawe'n fwy ffyniannus i bawb
6. Gwella iechyd, gofal cymdeithasol a lles i bawb yn Abertawe
7. Gwneud gwell defnydd o'n hadnoddau.

Beth yw'r pethau allweddol rydym yn dymuno eu gwella (ein 'Hamcanion Gwella')?

Mae'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru i bob cyngor gyhoeddi ei gynlluniau i wella'r hyn mae'n ei wneud a sut mae'n gwneud hynny. Y meysydd allweddol rydym am eu gwella yw:

1. Sicrhau bod gan oedolion ifanc, pobl hŷn a gofalwyr fwy o ddewis a rheolaeth dros y gefnogaeth y maent yn ei derbyn drwy drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol i oedolion.
2. Sicrhau bod plant diamddiffyn yn cael eu diogelu a'u cefnogi drwy gynnal a pharhau â gwelliannau i'r gwasanaethau plant a theuluoedd.
3. Gwella deilliannau dysgu a chynorthwyo disgyblion i gyflawni eu potensial.
4. Lleihau gwastraff a chynyddu compostio ac ailgylchu drwy hyrwyddo a hwyluso cyflwyno gwasanaethau rheoli gwastraff ac ailgylchu.

5. Gwella cyflogadwyedd pobl drwy gynyddu effaith rhaglen adfywio'r cyngor i gynnig a hwyluso hyfforddiant a lleoliadau gwaith.

Beth yw'r Adolygiad Perfformiad Blynyddol?

Hunanasesiad y cyngor ei hun yw'r Adolygiad Perfformiad Blynyddol ar ei berfformiad yn cyflawni'r blaenoriaethau (a elwir yr 'Amcanion Gwella') a amlinellwyd yng Nghynllun Gwella Corfforaethol 2011-12 (CGC) y flwyddyn flaenorol. Y Cynllun Gwella Corfforaethol (CGC) yw prif gynllun strategol y cyngor sy'n disgrifio blaenoriaethau gwella'r cyngor, sut i'w cyflawni a sut bydd llwyddiant yn cael ei fesur.

Caiff yr Amcanion Gwella eu pennu yn dilyn ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill. Caiff y CGC ei fabwysiadu gan y cyngor llawn ac mae'n destun craffu drwy Fyrddau Craffu'r cyngor. Yna caiff cyflwyno'r Cynllun Gwella Corfforaethol ei fonitro drwy drefniadau perfformiad a gwella'r cyngor. Mae mwy o wybodaeth am hyn ar gael yn Rhan 3.

Caiff yr Adolygiad Perfformiad Blynyddol ei lunio yng nghyd-destun tystiolaeth sy'n dangos cyflawni Amcanion Gwella'r cyngor am y flwyddyn flaenorol a'r 'effaith' a gafodd hynny ar ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae'n anodd weithiau fesur deilliannau gwasanaethau, yn enwedig os nad yw'r budd yn dod yn amlwg am sawl blwyddyn. Mae Dinas a Sir Abertawe, fel cynghorau eraill yng Nghymru, yn y broses o geisio llunio mesurau sy'n dangos yn well sut mae pobl yn well eu byd o ganlyniad i'r gwasanaethau maent yn eu derbyn. Mae'r cyngor yn gobeithio gweld datblygiad yn y maes hwn ar gyfer y CGC nesaf a gaiff ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2013.

Sut gallwch chi gymryd rhan a chynnig amcanion gwella newydd yn ystod y flwyddyn?

Mae'r cyngor wedi creu cronfa ddata ymgynghori bartneriaeth i roi mynediad hawdd i drigolion i'r ymgynghoriadau a gynhelir gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe a'i bartneriaid, neu ar eu rhan.

Yma gallwch gael golwg ar yr ymgynghoriad, cael mwy o fanylion, a chanfod a allwch gymryd rhan drwy ddarparu adborth a sut i wneud hynny. Pan fydd ymgynghoriad wedi'i gwblhau, gallwch lawrlwytho unrhyw ganlyniadau/gylchlythyron perthnasol.

Dilynwch y ddolen isod i gael mynediad i'r Gronfa Ddata Ymgynghoriadau.
www.swanseasays.org.uk

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau ynghylch y Gronfa Ddata, neu os ydych yn cael trafferth wrth ei defnyddio, cysylltwch â'r Cydlynnydd Ymgynghoriadau ar 01792 636732 neu ffacs 01792 637206 neu e-bostiwch.consultation@swansea.gov.uk

Gallwch gyfranogi hefyd drwy Fyrddau Craffu'r cyngor, sy'n agored i'r cyhoedd (gweler dolen isod) neu gallwch gysylltu â Thîm Mynediad i Wasanaethau'r cyngor ar ffôn: 636907 neu e-bost mynediadiwasanaethau@abertawe.gov.uk

<http://www.abertawe.gov.uk/index.cfm?articleid=36785>

Os hoffech gynnig Amcanion Gwella newydd ar gyfer 2013-18, gallwch gysylltu â'r cyngor unrhyw bryd drwy: e-bostio : improvement@swansea.gov.uk Ffôn 01792 636852.

Rhan 1 - Crynodeb Gweithredol

Y cynnydd wrth gyflawni blaenoriaethau gwella'r cyngor yn 2011/12 ac asesiad cyffredinol

Amcan Gwella 1

Sicrhau bod gan oedolion ifanc, pobl hŷn a gofalwyr fwy o ddewis a rheolaeth dros y gefnogaeth y maent yn ei derbyn drwy drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol i oedolion.

Beth rydym wedi'i wneud?

- Adolygu'r rhesymau dros yr oedi y mae pobl yn ei brofi wrth adael ysbyty am fath arall o ofal cymdeithasol a gweithredu'n briodol.
- Cymryd rhan mewn trefniadau rhanbarthol a chyflwyno taliadau i ddarparu gwasanaeth larymau cymunedol cynaliadwy i helpu i gefnogi pobl i aros gartref neu yn eu cymunedau.
- Parhau â'r gwaith o drawsnewid y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion er mwyn rhoi mwy o ddewis, llais a rheolaeth i bobl dros eu gofal er mwyn diwallu eu hanghenion fel unigolion.
- Bwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu gofal dementia sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n golygu trin pobl ag urddas a'u helpu i gael mwy o ddewis a rheolaeth dros eu gofal.
- Parhau i ddatblygu gweithlu Gofal Cymdeithasol Oedolion fel eu bod yn gallu darparu'r gefnogaeth addas i bobl wrth iddynt gael mwy o ddewis, llais a rheolaeth dros eu gofal cymdeithasol fel unigolion.

Sut rydym yn perfformio?

- Cafwyd llai o achosion o oedi ymhlith cleifion a oedd yn gadael yr ysbyty am fath arall o ofal cymdeithasol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Roedd anghenion cleientiaid yn cael eu hasesu a'u diwallu'n gynt wedi hynny drwy gwblhau ac adolygu Cynlluniau Gofal cyflymach o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Roedd yn cymryd mwy o amser i osod cymhorthion a chyfarpar yn nhai pobl i'w helpu i aros yn eu cartrefi neu yn y gymuned yn hytrach na mynd i ofal preswyl o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

A oes rhywun yn well ei fyd?

- Roedd mwy o bobl 18 i 64 oed yn derbyn cefnogaeth i fyw gartref ac yn y gymuned ond llai o bobl 65+ oed.
- Mae derbyniadau i gartrefi gofal preswyl wedi aros yn gyson, ond roedd pobl yn aros yno'n hwy, gan roi mwy o bwysau ar y gwasanaeth.
- Dylai gwasanaethau newydd sy'n caniatáu i bobl ddychwelyd adref ar ôl bod yn yr ysbyty neu ofal preswyl yn hytrach na mynd i ofal tymor hir, a gwasanaethau sy'n osgoi gorfod rhoi pobl mewn gofal preswyl mewn argyfwng neu heb ei gynllunio, helpu.

Amcan Gwella 2

Sicrhau bod plant diamddiffyn yn cael eu diogelu a'u cefnogi drwy gynnal a pharhau â gwelliannau i'r gwasanaethau plant a theuluoedd

Beth rydym wedi'i wneud?

- Gweithio gydag eraill i ddarparu ymyrryd ac atal cynnar fel na fydd rhaid i blant a theuluoedd gael ymyriad gan y gwasanaethau cymdeithasol yn y dyfodol.
- Ceisio defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol drwy hyfforddi a chefnogi staff yn well, gwell gwybodaeth am safon y gwasanaeth a rheolaeth ariannol well.
- Gweithio i ddarparu ymateb amserol ac o safon i blant sy'n cael eu cyfeirio i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.
- Ceisio sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn cael eu cefnogi i fyw mewn trefniadau gofal sefydlog a pharhaol.
- Gweithio i sicrhau bod plant yn cael eu diogelu'n effeithiol.

Sut rydym yn perfformio?

- Cafwyd cynnydd yn nifer y cyfeiriadau i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ond llai o ailgyfeiriadau na'r flwyddyn flaenorol.
- Cynllun peilot wedi'i sefydlu i gefnogi plant sy'n ffurfio cyfran helaeth o gyfeiriadau ac ailgyfeiriadau i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ond nad ydynt yn gymwys ar gyfer ymyriad gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Wedi cadw nifer y swyddi gwag yn isel, cyflogi llai o weithwyr asiantaeth a chadw rheolaeth ar lefelau salwch staff i gadw safon y gwasanaeth ac i helpu i leihau costau.

- Wedi gorwario cyllideb y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ac adolygu'r Cynllun Adennill Ariannol i geisio mynd i'r afael â'r broblem.
- Aseidiadau cychwynnol o blant a gyfeiriwyd i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn hwyrach oherwydd mwy o niferoedd ond wedi cwblhau aseidiadau mwy manwl yn fwy prydlon.
- Wedi rhoi cynlluniau gofal ar waith i'r holl blant sy'n derbyn gofal ar ddechrau eu lleoliadau cyntaf a chynllun ar waith i gyflawni parhad i'r mwyafrif.
- Ychydig llai o blant na'r flwyddyn flaenorol a oedd yn derbyn gofal wedi cael adolygiad o'u cynlluniau gofal yn brydlon, ond mwy o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant wedi cael adolygiad mewn pryd i sicrhau bod eu hanghenion yn parhau i gael eu diwallu.

A oes rhywun yn well ei fyd?

- **Cynyddu nifer y gofalwyr maeth ond wedi recriwtio llai o ofalwyr prif ffrwd na'r disgwyl a hynny'n arwain at adolygu'r trefniadau.**
- **Lleoli plant gyda'r gofalwr mwyaf addas o gofio pwysigrwydd parhad.**
- **Lleoli llai o blant ag anghenion cymhleth yn eu cymunedau eu hunain na'r disgwyl, a hynny'n arwain at adolygu'r trefniadau.**
- **Rhagori'r targed i ddychwelyd mwy o blant a oedd yn derbyn gofal mewn mannau eraill i fyw yn Abertawe.**
- **Mwy o blant sy'n derbyn gofal yn profi lleoliadau sefydlog na'r flwyddyn flaenorol.**
- **Llai o blant sy'n derbyn gofal ar y gofrestr amddiffyn plant (ac ar y gofrestr amddiffyn plant oherwydd esgeulustod yn unig) ym mis Mawrth 2012 o'i gymharu â mis Mawrth 2011.**

Amcan Gwella 3

Gwella deilliannau dysgu a chynorthwyo disgyblion i gyflawni eu potensial.

Beth rydym wedi'i wneud?

- Ehangu 2 leoliad Dechrau'n Deg fel bod mwy o deuluoedd yn gallu elwa o'r rhaglen.
- Parhau â'r gwaith i leihau nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion, gwella cyflwr ysgolion, cynyddu lleoedd mewn ysgolion Cymraeg, symleiddio'r ddarpariaeth ôl-16 a chynyddu'r ddarpariaeth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

- Helpu teuluoedd i gefnogi dysgu yn y cartref.
- Ceisio gwella presenoldeb mewn ysgolion.
- Parhau i gefnogi plant ag anghenion addysgol arbennig ac anghenion dysgu ychwanegol i gyrraedd eu potensial.
- Ceisio gwella llythrennedd a chyrraedd addysgol a llai o blant yn gadael ysgol heb gymhwyster ffurfiol.
- Gweithio i sicrhau bod llai o blant 16 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant .

Sut rydym yn perfformio?

- Wedi cynyddu nifer y plant hyd at 3 oed sy'n elwa o gynllun Dechrau'n Deg.
- Lleihau nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion Saesneg ac ehangu nifer y lleoedd mewn ysgolion Cymraeg.
- Cyflwyno ffyrdd o weithio rhwng ysgolion a chartrefi sy'n rhoi'r sgiliau i ddisgyblion a'u teuluoedd i ddelio â phroblemau eu hunain a darparu amgylchedd cefnogol yn y cartref ar gyfer dysgu.
- Gwell presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Cadw nifer y disgyblion a gafodd eu gwahardd o'r ysgol yn isel.
- Sicrhau bod yr holl ddisgyblion sy'n derbyn gofal yn ennill cymhwyster cydnabyddedig.

A oes rhywun yn well ei fyd?

- **Disgyblion Dechrau'n Deg yn dangos cynnydd yn eu datblygiad a'u hiaith yn fwy na'r disgwyl.**
- **O'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, cafwyd cyrraedd addysgol gwell ymhlith plant 7 i 11 oed a 14 i 16 oed, llai o blant yn gadael yr ysgol heb gymhwyster ffurfiol a llai o blant yn 16 oed heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.**

Amcan Gwella 4

Lleihau gwastraff a chynyddu compostio ac ailgylchu drwy hyrwyddo a hwyluso cyflwyno gwasanaethau rheoli gwastraff ac ailgylchu

Beth rydym wedi'i wneud?

- Cyflwyno casgliadau gwastraff bob yn ail wythnos ar draws Abertawe a pharhau i ehangu'r casgliadau gwastraff bwyd ac ailgylchu sych o fflatiau.
- Parhau i weithio gyda grwpiau a sefydliadau eraill i geisio cynyddu ailgylchu a lleihau gwastraff.
- Parhau â mentrau i geisio cynyddu ailgylchu a lleihau gwastraff, megis curo ar ddrysau mewn ardaloedd lle mae'r cymryd rhan yn isel a hybu'r defnydd o gewynnau go iawn fel dewis arall i rai tafladwy, ymhlith cynlluniau eraill.
- Datblygu strategaeth ar gyfer y 5 mlynedd nesaf i barhau i leihau gwastraff a chynyddu ailgylchu.
- Gweithio i leihau tipio'n anghyfreithlon drwy orfodi a gwreiddio'r trefniadau casglu gwastraff bob yn ail wythnos.

Sut rydym yn perfformio?

- Lleihau swm y gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi yn barhaus a chynnydd cyfatebol yn swm y gwastraff a ailgylchwyd; bydd bodloni targedau Llywodraeth Cymru'n parhau'n her.
- Cafwyd llai o achlysuron o dipio anghyfreithlon o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Cafodd llai o achlysuron tipio anghyfreithlon eu clirio o fewn yr amser penodol o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol.

A oes rhywun yn well ei fyd?

- **Dangosodd arolwg fod tua 72% o'r ymatebwyr yn cytuno bod y newid i gasgliadau gwastraff bob yn ail wythnos wedi eu hannog i gynyddu'r gwastraff y maent yn ei ailgylchu.**
- **Yn yr un arolwg, cafwyd bod 81% o ymatebwyr o'r farn fod tipio anghyfreithlon wedi gwella neu wedi aros yr un peth.**

Amcan Gwella 5

Gwella cyflogadwyedd pobl drwy gynyddu effaith rhaglen adfywio'r cyngor i gynnig a hwyluso hyfforddiant a lleoliadau gwaith

Beth rydym wedi'i wneud?

- Parhau i gydweithredu â chynghorau eraill yn y rhanbarth drwy brosiect *Gweithffyrdd* i weithio gyda chyflogwyr i helpu pobl sy'n anweithgar yn economaidd a'r di-waith yn ôl i gyflogaeth.
- Parhau i roi cynllun *y Tu Hwnt i Frics a Morter* ar waith, sy'n defnyddio cymalau budd cymdeithasol mewn contractau adfywio i ddarparu cyflogaeth a chyfleoedd hyfforddi i'r di-waith a'r anweithgar yn economaidd tymor hir.

Pa mor dda rydym yn gwneud?

- Wedi cofrestru mwy o bobl i gymryd rhan ym mhrosiect *Gweithffyrdd* i'w helpu i ddychwelyd i'r gwaith.
- Wedi cynyddu nifer y Mentrau Bach a Chanolig (MBaCh) a phartneriaid sy'n cymryd rhan yng nghynllun *Y Tu Hwnt i Frics a Morter* i ehangu cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth.
- Wedi cynyddu nifer y contractau sector cyhoeddus sy'n cynnwys cymalau budd cymdeithasol drwy *Y Tu Hwnt i Frics a Morter* i ehangu cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth.

A oes rhywun yn well ei fyd?

- **Llai o gyfranogwyr *Gweithffyrdd* na'r disgwyl yn cael eu cyflogi o ganlyniad i'r prosiect oherwydd newidiadau o ran cymhwysedd; serch hynny, llwyddodd 201 o'r gyfranogwyr i ddod o hyd i waith.**
- **Dywedodd 74% o gyfranogwyr *Gweithffyrdd* a ymatebodd i arolwg fod y prosiect wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w gobeithion am gyflogaeth.**
- **Cafodd 47 o hyfforddeion le gyda 29 o gontractwyr yn 2011/12 drwy *Y Tu Hwnt i Frics a Morter*; Roedd 30 o hyfforddeion yn dal yn eu lleoliadau ar ddiwedd y flwyddyn.**
- **Dywedodd 80% o gyfranogwyr *Y Tu Hwnt i Frics a Morter* a ddychwelodd arolwg eu bod wedi cael budd personol o'u lleoliadau.**

Asesiad cyffredinol

- Mae'r cyngor wedi gwneud cynnydd da wrth gyflawni ei Amcanion Gwella ar gyfer 2011-12.

- Mae'r cyngor yn deall yn glir lle na chafodd y disgwyliadau eu bodloni ac mae wedi sefydlu strategaethau a chymau adferol i wella perfformiad.
- Mae'r cyngor yn cydnabod, fel cynghorau a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, fod angen iddo ddatblygu mesurau gwell ynghylch a yw pobl yn well eu byd o ganlyniad i'r gwaith gwella a wnaed; bydd gwaith yn parhau yn hyn o beth yn barod ar gyfer y Cynllun Gwella Corfforaethol nesaf.
- Caiff yr asesiad hwn ei adolygu a'i archwilio drwy drefniadau craffu'r cyngor.

Gwybodaeth am berfformiad a sut mae'n cael ei defnyddio

Mae'r cyngor yn gweithio gyda'i bartneriaid i benderfynu ar y cyd-flaenoriaethau ar gyfer holl bobl Abertawe, sy'n cael eu cyhoeddi mewn 'Cynllun Cymunedol' ¹, a'u monitro.

Mae'n rhaid i'r cyngor hefyd benderfynu ar ei flaenoriaethau ei hun bob blwyddyn, sy'n ymddangos mewn 'Cynllun Gwella Corfforaethol'.

Mae pob gwasanaeth yn y cyngor yn cynhyrchu Cynllun Busnes 4 blynedd. Mae pob un o'r cynlluniau hyn yn disgrifio sut bydd gwasanaethau'r cyngor yn cyflawni eu hamcanion eu hunain ac yn cyfrannu at gyflawni'r blaenoriaethau cymunedol a chorfforaethol.

Mae'r cyngor yn monitro ac yn adrodd am berfformiad gwasanaethau yn ôl targedau cytunedig yn chwarterol ac yn flynyddol. Mae hyn yn rhoi cyfle i ystyried unrhyw broblemau a'u datrys a hefyd gyfeirio penderfyniadau ar wario a sut mae dyrannu adnoddau eraill.

Mae'r cyngor hefyd yn ymgynghori â phobl Abertawe ac eraill ac yn eu cynnwys wrth ganfod eu barn am y gwasanaethau a ddarperir gan y cyngor ac mae cwynion a chanmoliaeth gan y cyhoedd a defnyddwyr gwasanaethau hefyd yn ffynhonnell wybodaeth a ddefnyddir i wella gwasanaethau.

Mae Byrddau Trosolwg a Chraffu y Cyngor ² yn ffordd bwysig i aelodau etholedig alw gweithrediaeth y cyngor i gyfrif. Maent yn gweithredu fel 'cyfaill beirniadol' i'r Cabinet a llunwyr penderfynwyr eraill yn y cyngor er mwyn hyrwyddo gwasanaethau, polisïau a phenderfyniadau gwell.

Mae cyflwyno ystod eang o wasanaethau a hynny â llai o adnoddau a phwysau sylweddol yn dod â risg (a chyfle) yn ei sgîl y mae'n rhaid ei reoli'n effeithiol.

Caiff risg ei reoli ar lefelau gwahanol yn y cyngor, a hynny'n amrywio o brosiectau unigol lle caiff risgiau eu rheoli o fewn y prosiectau unigol hynny, i risgiau sy'n effeithio ar y gymuned i gyd, megis perygl llifogydd.

Mae'r cyngor yn ymrwymedig i drin pobl yn deg ac yn unol â'u hanghenion ym mhob gwasanaeth. Mae 'Cynllun Iaith Gymraeg' a 'Chynllun Cydraddoldeb ac Amrywiaeth' gan y cyngor, a'u bwriad yw sicrhau bod pawb yn Abertawe'n cael eu trin yn deg ac yn gyfartal ac nad oes gwahaniaethu yn erbyn pobl.

Mae'r cyngor yn parhau i asesu ei swyddogaethau, ei bolisïau a'i weithdrefnau arfaethedig ac yn cyllidebu ar gyfer yr effeithiau ar grwpiau gwahanol.

Mae'r cyngor yn ymrwymedig i sicrhau bod ei wasanaethau'n gynaliadwy i'r sawl sy'n eu defnyddio ac i bobl Abertawe. Yn 2011/12, mabwysiadodd Dinas a Sir Abertawe 'Bolisi Datblygu Cynaliadwy' newydd.

¹ Caiff y 'Cynllun Cymunedol' ei ddisodli gan y 'Cynllun Integredig Sengl' a gellir gweld y cynnydd [yma](#)

² Mae trefniadau craffu'r cyngor wedi newid o 2012/13 a gellir eu gweld [yma](#).

Mae'r cyngor wedi datblygu ymagwedd bwrpasol a chorfforaethol at wella perfformiad mewn meysydd lle mae angen gwelliannau sylweddol.

Mae'r cyngor yn defnyddio'r ymagwedd hon ar hyn o bryd mewn ymateb i argymhelliad statudol gan Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch trefniadau Pwyllgor Cynllunio'r cyngor.

Gweithio ar y cyd ag eraill yn 2011/12

Rydym yn cydweithredu â chynghorau eraill Cymru yn y meysydd canlynol (**nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr**) er mwyn gwella gwasanaethau, rhannu gwybodaeth, manteisio ar arbenigedd a/neu effeithlonrwydd ac arbed costau:

- Gwasanaethau cyfreithiol
- Trin gwastraff bwyd.
- Cynnal a chadw a rheoli priffyrdd.
- Cludiant.
- Dinasoedd Iach.
- Safonau Masnach.
- Diogelwch Cymunedol.
- Gwasanaethau proffesiynol pensaernïaeth a pheirianeg.
- Gwasanaethau Gwella Ysgolion.
- Asesu'r Farchnad Dai er mwyn nodi'r gofynion i ddarparu tai yn y dyfodol.
- Gwella'r mynediad i lety diogel a chefnogi menywod.
- Creu cadwyn gyflenwi leol a chyfleoedd hyfforddi a recriwtio.
- Adolygu gofynion tir twf economaidd a chyflogaeth.
- Adolygu'r Cynllun Rheoli'r Traethlin.
- Gweithio ar faterion megis Hawliau Tramwy, Llwybr Arfordir Cymru, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Morol, etc.
- Mentrau datblygu'r gweithlu.
- Cynhyrchu Fframwaith Iechyd Galwedigaethol trawscyngor.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) i gynhyrchu deunydd cyfathrebu safonol.
- Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol - integreiddio gwasanaethau i ddefnyddio adnoddau'n wella a chyflawni canlyniadau gwell i bobl.
- Cefnogi pobl ag Anableddau Dysgu, anghenion Iechyd Meddwl, Pobl Hŷn a Phlant drwy gomisiynu gwasanaethau arbenigol yn fwy effeithiol.
- Comisiynu lleoedd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gyda gofalwyr maeth ac mewn cartrefi plant i wella cydweddu anghenion plant â'r gefnogaeth sydd ar gael, cynyddu sefydlogrwydd lleoliadau ac arbed costau.

- Gofal dementia sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Datblygu fframwaith Cyfrifyddu ar Sail Canlyniadau i ddarparu gwasanaethau Hamdden, Diwylliannol a Llyfrgelloedd yng Nghymru.
- Darparu gwasanaeth Archifau unedig ac Uned Cydnerthu gyda Chyngor Castell-nedd Port Talbot.
- Caffael nwyddau a gwasanaethau.
- Wedi gweithio ar y cyd â sefydliadau eraill i lunio achos dros Ranbarth Bae Abertawe a lloio'n llwyddiannus i gynnwys trydaneiddio'r rheilffordd i orsaf Abertawe i ysgogi twf economaidd.

Dinas a Sir Abertawe

Rhan 2 – Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2011-12

City and County of Swansea
Dinas a Sir Abertawe



Rhan 2 - Cynnydd wrth gyflawni blaenoriaethau gwella'r cyngor yn 2011/12

Amcan Gwella 1:

Sicrhau bod gan oedolion ifanc, pobl hŷn a gofalwyr fwy o ddewis a rheolaeth dros y gefnogaeth y maent yn ei derbyn drwy drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol i oedolion.

Pam cafodd yr amcan hwn ei ddewis?

- Mae poblogaeth sy'n heneiddio, cyllid cyhoeddus prin, costau cynyddol a disgwyliadau newidiol pobl y mae angen cefnogaeth arnynt gyda'i gilydd yn creu galw gwahanol a chynyddol ar y gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion.
- Mae hyn yn golygu y bydd mwy o alw am wasanaethau amserol sy'n ymatebol ac wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion a'r hyn sydd orau gan bobl. Bydd gofyn hefyd am weld gwelliant parhaus wrth i ofal symud fwyfwy i gyfeiriad cefnogaeth yn y gymuned.

At ba ganlyniad i Abertawe y mae hwn yn cyfrannu?

- Gwella iechyd a lles i bawb yn Abertawe.

Beth yw ein meysydd blaenoriaeth?

Llai o gleifion mewn ysbytai y cytunwyd eu bod yn barod i gael eu rhyddhau yn cael eu gohirio oherwydd rhesymau gofal cymdeithasol.

Mwy o bobl y cafodd eu cynlluniau gofal eu cwblhau a'u hadolygu'n brydlon er mwyn sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu nodi a'u diwallu.

Technoleg gynorthwyol yn cael ei gosod yn brydlon yn dilyn cynlluniau gofal cytunedig i helpu pobl i fyw gartref ac yn eu cymunedau.

Gweithlu wedi'i ddatblygu i godi safonau ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion.

Mwy o ddewis, llais a rheolaeth gan bobl dros eu gofal er mwyn diwallu eu gofynion personol.

Pobl yn cael eu cefnogi i fyw gartref ac yn eu cymunedau.

Sut rydym yn perfformio yn ein meysydd blaenoriaeth?

Yn ystod 2011/12, mae'r cyngor wedi ymgymryd â'r gwaith canlynol i geisio cyflawni'r meysydd blaenoriaeth:

Llai o gleifion mewn ysbytai y cytunwyd eu bod yn barod i gael eu rhyddhau yn cael eu gohirio oherwydd rhesymau gofal cymdeithasol.

- Mae'r cyngor wedi dechrau adolygiadau misol o'r oedi a'r rhesymau dros yr oedi ymhlith cleifion sy'n gadael yr ysbyty am fathau eraill o ofal cymdeithasol. Mae'r cyngor wedi gweithio gyda phartneriaid iechyd i geisio lleihau oedi o'r fath drwy wella argaeledd a mynediad i wasanaethau lleol.

Beth oedd effaith hynny?

- Yn dilyn uchafbwynt o 27 o achosion o oedi ym mis Mehefin 2011 (16 ohonynt oherwydd aros i ddechrau pecyn gofal cartref), mae perfformiad wedi gwella a nifer yr achosion o oedi wedi disgyn yn sydyn i 2 achos ym mis Chwefror 2012 (nad oedd yn ymwneud ag aros i ddechrau pecyn gofal cartref).
- O'i gymharu â pherfformiad y cyngor ei hun a chynghorau eraill Cymru, cafwyd gwelliant ym mherfformiad Abertawe; byddai hyn yn golygu bod Abertawe yn codi o'r 20^{fed} safle yng Nghymru i'r 18^{fed} ar sail canlyniadau 2011/12, er y byddai'n waeth na chyfartaledd Cymru yn 2011/12.

Mwy o bobl y cafodd eu cynlluniau gofal eu cwblhau a'u hadolygu'n brydlon er mwyn sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu nodi a'u diwallu.

- Mae'r cyngor wedi ceisio rhoi cynlluniau gofal ar waith yn gyflym i bobl a cafodd eu hasesu bod angen gofal arnynt er mwyn nodi eu hanghenion a'u diwallu cyn gynted â phosib.
- Mae'r cyngor hefyd wedi gweithio i adolygu cynlluniau gofal mewn pryd er mwyn ymateb i anghenion sy'n newid a sicrhau bod cynlluniau gofal yn parhau i ganolbwyntio ar ddiwallu gofynion unigol a phenodol pobl.

Beth oedd effaith hynny?

- Mwy o gleientiaid wedi cael eu cynlluniau gofal wedi'u cwblhau a'u hadolygu o fewn yr amserlenni yn 2011/12 nag ar unrhyw adeg ers 2006/07. Mae hyn yn golygu y cafodd anghenion cleientiaid eu nodi a'u diwallu'n gynt. Serch hynny, disgynnodd safle Abertawe o 13^{eg} i 15^{fed} yn Nghymru a'r perfformiad yn disgyn ychydig o dan cyfartaledd Cymru.

Mae technoleg gynorthwyol yn cael ei gosod yn brydlon yn dilyn cynlluniau gofal cytunedig i helpu pobl i fyw gartref ac yn eu cymunedau.

- Bu'r cyngor yn rhan o drefniadau rhanbarthol gan gyflwyno polisi codi tâl i gefnogi gwasanaeth cyfarpar a larymau cymunedol cynaliadwy er mwyn parhau i helpu i gefnogi pobl i fyw gartref ac yn eu cymunedau a helpu i osgoi gorfod mynd i'r ysbyty neu fathau o ofal preswyl.

Beth oedd effaith hynny?

- Darparwyd 4,000 o eitemau o gyfarpar i ddinasyddion Abertawe yn 2011/12. Darparwyd cymorth cymunedol arall i 4,624 o bobl a gytunodd i dalu am larymau cymunedau o dan y polisi codi tâl newydd, gyda 1,353 o bobl eraill yn derbyn gwasanaeth am ddim (mis Medi 2011).
- Roedd saith niwrnod ar gyfartaledd rhwng asesiad cychwynnol pobl a gosod cymhorthion a chyfarpar, a hynny'n hwy na'r 5.5 niwrnod a gofnodwyd ar gyfer 2010/11 a'r targed cytunedig o 5 niwrnod.
- Mae'r cyngor wedi cwblhau cytundeb partneriaeth yn ddiweddar rhwng Cyngor Abertawe, Cyngor Castell-nedd Port Talbot a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Mae holl gaffael, storio, dosbarthu, cynnal a chadw, atgyweirio, casglu ac ailgylchu cyfarpar cymunedol bellach wedi'u cwmpasu'n gynhwysfawr gan y cytundeb hwn, ac mae'r cyngor yn disgwyl gweld gwelliant yn ystod y flwyddyn.

Mwy o ddewis, llais a rheolaeth gan bobl dros eu gofal er mwyn diwallu eu gofynion personol.

- Roedd y cyngor yn parhau i weithio ar gyflawni'r rhaglen i drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol i oedolion er mwyn darparu dewis, llais a rheolaeth dros eu gofal a hyrwyddo annibyniaeth a diwallu eu hanghenion unigol a phenodol.
- Datblygwyd cynlluniau 3 blynedd i gomisiynu gwasanaethau er mwyn cyflawni'r trawsnewid yng ngwasanaethau pobl hŷn y cyngor a darparu dewis, llais a rheolaeth i bobl dros eu gofal.
- Roedd y cyngor wedi gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu gwasanaethau gofal dementia sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac sy'n golygu eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch ac yn cael mynegi eu dewis a rheolaeth yn eu bywydau.

Beth oedd effaith hynny?

- Bydd canlyniad llawn y gwaith trawsnewid hwn sydd ar waith ar hyn o bryd yn fwy amlwg dros amser, ond dylem weld mwy o bobl yn manteisio ar wasanaethau lleol ac ataliol, mwy o bobl yn rheoli eu gofal eu hunain a mwy o bobl yn derbyn gwasanaethau gofal sydd wedi'u teilwra i'w hanghenion fel unigolion.
- Er enghraifft, wrth werthuso cynllun peilot ardal St John, gwelwyd yr aed i'r afael â llawer o gyfeiriadau gwasanaeth dydd a fyddai o'r blaen o bosib wedi mynd ar

restr aros St John (Cartref Gofal Preswyl) drwy gyfleoedd dydd newydd ac eisoes yn bodoli.

- Mae'r cyngor wedi gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu gwasanaethau gofal dementia sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn drwy eu trin ag urddas a pharch a'r hawl iddynt fynegi dewis a rheoli eu bywydau. Yn aml, nid yw pobl sy'n dioddef o dementia ac mae eu hymddygiad yn gallu bob yn heriol yn cael digon o gefnogaeth ac o ganlyniad gallant gael eu lleoli mewn gofal preswyl nad yw'n addas. Er enghraifft, mae safle peilot wedi'i nodi i weithio gyda'r uned arhosiad byr yn Nhŷ Waunarlwydd i ddatblygu gwasanaeth 'Cefnogi ac Aros Gartref' amlasiantaeth i gefnogi pobl â dementia i aros gartref, gan ddefnyddio technoleg gynorthwyol 'Just Checking'.

Gweithlu wedi'i ddatblygu i godi safonau ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion.

- Mae'r gwasanaethau yn y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion yn cael eu hail-lunio fel eu bod yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion unigolion ac ar wella canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth yn lle'r ymagwedd 'yr un ateb i bawb'. Mae'n bwysig bod staff gofal cymdeithasol wedi'u hyfforddi'n briodol a'u cefnogi fel eu bod yn gallu addasu i'r newidiadau yn ein ffyrdd o weithio.
- Mae'r cyngor wedi ceisio datblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol i oedolion drwy hyfforddiant, gweithdai ac annog a mentora er mwyn sicrhau eu bod yn gymwys ac yn gallu darparu'r gefnogaeth gywir i bobl wrth iddynt gael mwy o ddewis a rheolaeth ac wrth i wasanaethau ganolbwyntio mwy ar hybu annibyniaeth.

Beth oedd effaith hynny?

- Mae'r cynnydd yn 2011/12 wedi cynnwys datblygu rhaglen hyfforddi gynhwysfawr, cynllun annog a mentora, hyfforddiant ar gyflwyno gofal cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar ddiwallu anghenion pobl ac ar ymagweddau sy'n pwysleisio pwysigrwydd gwell canlyniadau i ddefnyddwyr y gwasanaeth; bydd y gwaith hwn yn parhau i 2012/13.
-

A oes rhywun yn well ei fyd?

Pobl yn cael eu cefnogi i fyw gartref ac yn eu cymunedau.

- Mae'r cyngor yn parhau i weithio i gefnogi pobl gartref ac yn y gymuned yn fwy, sef y dewis a ffefrir cyn ystyried gofal preswyl. Dylai gwella'r gefnogaeth i bobl sy'n byw gartref ac yn eu cymunedau, megis technoleg gynorthwyol, helpu i gyflawni hyn.
- Mae'r cyngor hefyd wedi ymchwilio i ddatblygu gwasanaeth 'camu i lawr' i bobl sy'n gadael yr ysbyty er mwyn eu helpu i ddychwelyd adref yn hytrach na mynd i ofal tymor hir.

- Mae achos busnes cychwynnol wedi'i lunio i ddatblygu gwasanaethau gofal cartref tymor hir gyda'r bwriad o leihau nifer y bobl sy'n cael eu rhoi mewn cartrefi gofal o ganlyniad i argyfwng neu argyfwng dirybudd.

Beth oedd effaith hynny?

- Yn 2011/12, cafodd mwy o gleientiaid rhwng 18 a 64 oed eu cefnogi yn y gymuned nag ar unrhyw adeg ers y ffigurau cyntaf yn 2005/06, gydag Abertawe yn parhau yn y chwarterel uchaf yng Nghymru ar sail canlyniadau cenedlaethol 2011/12. Fodd bynnag, cafodd llai o bobl dros 65 oed eu cefnogi yn 2011/12 o'u cymharu â 2010/11 gyda'r ddwy flynedd yn dangos dirywiad mewn perfformiad; roedd hyn oherwydd bod nifer y cleientiaid mewn gofal preswyl yn cynyddu. Felly mae Abertawe'n aros yn yr 20^{fed} safle yng Nghymru yn ôl canlyniadau cenedlaethol 2011/12.
- Mae'r ffocws i gleientiaid dros 65 oed wedi bod ar ymgymryd ag adolygu'r cynlluniau gofal i ystyried a yw eu hanghenion cymdeithasol eisoes yn cael eu diwallu gan y gwasanaethau a ddarperir a chanolbwyntio ar ehangu ystod y gwasanaethau ailalluogi. Mae'r trawsnewid hwn yn y gofal cymdeithasol i oedolion wedi golygu gostyngiad yn nifer y bobl sy'n derbyn gwasanaethau yn y gymuned.
- Ar yr un pryd, mae nifer y bobl mewn gofal preswyl wedi cynyddu. Er bod nifer y bobl sydd wedi'u lleoli mewn gofal preswyl yn parhau'n gyson, mae'r bobl hynny yn aros yno am gyfnodau hwy. Mae'r newid hwn wedi effeithio ar berfformiad 'cydbwysedd gofal'; ond mae'r cyngor yn gweithio gyda phartneriaid lechyd i ddatblygu cynlluniau i estyn amrywiaeth y gwasanaethau integredig sydd ar gael yn Abertawe e.e. gwasanaethau camu i fyny a chamu i lawr, ymateb mewn argyfwng etc.

Y partneriaid y buom yn gweithio gyda hwy ar hyn	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (PABM), darparwyr gofal cymdeithasol allanol
Adnoddau	Ffynhonnell adnoddau yw: Cyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion
Cysylltiad ag Amcanion Cydraddoldeb	Amcan Cydraddoldeb 18 - Gwella'r mynediad i ddarpariaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol, gan sicrhau bod anghenion defnyddwyr y gwasanaethau'n ganolog i'r holl gynllunio a'r gweithgareddau comisiynu.
Gweithgareddau gwella eraill y cyngor sy'n gysylltiedig	Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles. Cynllun Cyflwyno Strategol y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion. Rhaglen Trawsnewid y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion.

Amcan Gwella 2:

Sicrhau bod plant diamddiffyn yn cael eu diogelu a'u cefnogi drwy gynnal a pharhau â gwelliannau i wasanaethau plant a theuluoedd.

Pam cafodd yr amcan hwn ei ddewis?

- Cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) Adroddiad Arolygu ar gyfer y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ym mis Mawrth 2010.
- Dywedodd yr arolygwyr fod y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wedi cyfnerthu ac adeiladu ar welliannau er gwaethaf cynnydd sylweddol mewn gweithgaredd.
- Mae'r gwasanaethau i blant a theuluoedd wedi parhau i wella. Fodd bynnag, roedd nifer o heriau sylweddol yn parhau ac roedd yn rhaid i Abertawe barhau â'r gwelliannau a oedd eisoes wedi'u cyflawni a pharhau i wella.
- Mae nifer y cyfeiriadau a'r ailgyfeiriadau sy'n dod i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd bob mis yn uchel.
- Mae gan Abertawe nifer mawr o blant sy'n derbyn gofal.

At ba ganlyniad i Abertawe y mae hwn yn cyfrannu?

- Creu gwell Abertawe i'r holl blant a phobl ifanc

Beth yw ein meysydd blaenoriaeth?

Ymyrryd ac Atal Cynnar i leihau'r angen i blant a theuluoedd orfod wynebu ymyriad y Gwasanaethau Cymdeithasol yn y dyfodol.

Mae plant sy'n cael eu cyfeirio i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn cael ymateb o safon a phrydlon.

Mae plant sy'n derbyn gofal yn cael eu cefnogi i fyw mewn trefniadau gofal sefydlog a pharhaol.

Mae adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol.

Mae plant yn cael eu diogelu'n effeithiol.

Sut rydym yn perfformio yn ein meysydd blaenoriaeth?

Yn ystod 2011/12, mae'r cyngor wedi ymgymryd â'r gwaith canlynol i geisio cyflawni'r meysydd blaenoriaeth:

Ymyrryd ac Atal Cynnar i leihau'r angen i blant a theuluoedd orfod wynebu ymyriad y Gwasanaethau Cymdeithasol yn y dyfodol.

- Gweithio gydag eraill i ymyrryd yn gynt a darparu cefnogaeth gydlynol i deuluoedd i atal plant rhag gorfod mynd i'r system gofal.
- Cyflwyno system i gadarnhau bod plant wedi cael eu cyfeirio a'u hasesu'n briodol yn ystod yr wythnos flaenorol.
- Cyflwyno gwasanaeth sy'n galluogi ein partneriaid i gadarnhau gyda gweithiwr cymdeithasol profiadol cyn cyfeirio plentyn i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.
- Gwasanaethau wedi'u hadolygu i sicrhau bod plant yn aros yng ngofal eu teuluoedd cyhyd ag yw'n bosib heb orfod dod i'r system gofal.
- Cyflwyno cynllun peilot gyda phartneriaid i gefnogi a hyrwyddo cynhwysiad plant sy'n ffurfio cyfran sylweddol o'r cyfeiriadau a'r ailgyfeiriadau i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ond heb fodloni'r meini prawf ar gyfer ymyriad gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Beth oedd effaith hynny?

- Cynyddodd nifer y plant a gafodd eu cyfeirio i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd rhwng 2010/11 a 2011/12. Roedd peth o'r cynnydd oherwydd bod y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wedi nodi'n gynt pa blant a theuluoedd a fyddai'n elwa o gefnogaeth gydlynol i'w hatal rhag bod ag angen mwy o ymyriad.
- Er bod y cyngor ychydig yn brin o'i darged i leihau ailgyfeiriadau, cafwyd gwelliant yn 2011/12 (30.9%) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (34.8%) ac roedd safle Abertawe'n genedlaethol wedi gwella o'r 19^{eg} i'r 17^{eg} yng Nghymru, er bod Abertawe'n parhau y tu allan i gyfartaledd Cymru (29.7%). Wrth ddadansoddi'r ailgyfeiriadau, gwelir bod y mwyafrif helaeth o'r rhain yn isel eu risg, a digwyddiadau o gam-drin yn y cartref yr adroddwyd amdanynt gan yr heddlu. Bydd cyflwyno Cydlynnydd Atal Cam-drin yn y Cartref yn 2012/13 i weithio gyda theuluoedd yn helpu i fynd i'r afael â hyn.
- Roedd yr Arolygiad Mynediad AGGCC diweddar wedi pwysleisio'r ffaith nad oes trefniadau ar waith ar hyn o bryd gyda phartneriaid i gefnogi a hyrwyddo cynhwysiad plant sy'n ffurfio cyfran helaeth o'r cyfeiriadau a'r ailgyfeiriadau i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ond heb fodloni'r meini prawf ar gyfer ymyriad gan y Gwasanaethau Cymdeithasol. Sefydlwyd cynllun peilot i fynd i'r afael â'r bwch hwn yn y gwasanaethau.

Adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol

- Wedi cyflwyno hyfforddiant proffesiynol newydd i weithwyr cymdeithasol i wella safon arfer gwaith cymdeithasol.
- Ceisio gwella hyfforddi, arfarnu a goruchwylio staff er mwyn gwella recriwtio a chadw staff gwaith cymdeithasol a lleihau'r ddibyniaeth ar weithwyr asiantaeth, gyda'r nod o wella cysondeb a safon arfer gwaith cymdeithasol a lleihau costau staffio.
- Ceisio cynhyrchu gwybodaeth well ar safon y gwasanaeth i helpu i wella arfer gwaith cymdeithasol eto.
- Cyflwyno gweithdrefnau a ffyrdd o weithio newydd i wella rheolaeth ariannol

Beth oedd effaith hynny?

- Roedd swyddi gwag yn y gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn ystod 2011/12 yn dal yn isel gydag ychydig mwy o swyddi gwag erbyn mis Mawrth 2012 o'i gymharu â mis Mawrth 2011. Cyflogwyd llai o weithwyr asiantaeth gan y cyngor hefyd - ar ddiwedd mis Mawrth 2012 (1 gweithiwr asiantaeth) o'i gymharu â mis Mawrth 2011 (5.4 gweithiwr asiantaeth). Mae cyfraddau salwch staff yn parhau'n bryder ond mae gobaith am welliant wrth i ymdrechion helpu i fynd i'r afael â salwch tymor hir.
- Gorwariodd y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd £3.98m yn 2011/12. Roedd y meysydd lle gwelwyd mwy o bwysau ariannol yn cynnwys costau lleoliadau preswyl allanol i blant sy'n derbyn gofal a recriwtio llai o ofalwyr maeth prif-ffrwd na'r disgwyl. Mae'r Cynllun Adfer Ariannol Plant a Theuluoedd wedi'i adolygu i fynd i'r afael â'r pwysau hyn.

Mae plant sy'n cael eu cyfeirio i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn cael ymateb o safon a phrydlon.

- Mae'n bwysig bod plant sy'n cael eu cyfeirio i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn cael eu hasesu'n gyflym fel bod eu hanghenion yn cael eu nodi'n gyflym a'u diwallu cyn gynted â phosib. Mae plant sy'n cael eu cyfeirio i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn cael asesiad cychwynnol ac un manylach wedyn os bydd rhaid.
- Mae'n bwysig bod gan blant sy'n derbyn gofal gan y cyngor gynlluniau gofal ar waith ar ddechrau eu lleoliadau sy'n pwysleisio'r angen i wasanaethau ddarparu bywyd cartref sefydlog iddynt gyda chyn lleied â phosib o newidiadau mewn lleoliadau. Mae'n bwysig bod y cynlluniau hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod anghenion y plant unigol yn cael eu diwallu.
- Mae'r cyngor wedi cyflwyno trefniadau yn 2011/12 i gasglu gwybodaeth ynghyd o ffynonellau gwahanol gan gynnwys adborth cwynion, sylwadau a chanmoliaeth, archwiliadau ffeiliau achosion a gwaith gyda phobl ifanc. Cyfarfu'r Fforwm Fe Fi (sy'n cynnwys plant sy'n derbyn gofal) bob egwyl ysgol a chyfarfu Fforwm Rhieni a

Gofalwyr Abertawe i gynnig cyfle i rannu gwybodaeth, cynnig sylwadau ar gynlluniau'r cyngor a chynnig awgrymiadau ymarferol ac adeiladol i wella gwasanaethau.

Beth oedd effaith hynny?

- Methodd y cyngor â chyrraedd ei darged i gwblhau asesiadau cychwynnol yn gyflym (77.8%) ac roedd y perfformiad ychydig yn waeth na'r flwyddyn flaenorol (78.7%). Roedd hyn oherwydd bod y nifer uwch o blant a gafodd eu cyfeirio i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn golygu mwy o asesiadau cychwynnol i'w cwblhau; fodd bynnag, mae'r perfformiad yn well na chyfartaledd Cymru (69.2%). Llwyddodd y cyngor i gwblhau mwy o asesiadau manwl mewn pryd fodd bynnag gan berfformio'n well yn 2011/12 (68.9%) na'r flwyddyn flaenorol (57%), gydag Abertawe'n codi un safle o'r 17^{eg} i'r 16^{eg} yng Nghymru; er bod y perfformiad yn dal yn waeth na chyfartaledd Cymru (73.2%).
- Roedd gan bob plentyn sy'n derbyn gofal gan y cyngor gynlluniau gofal ar waith ar ddechrau eu lleoliad cyntaf yn 2011/12 ac roedd gan 95.5% gynllun i gyflawni parhad ar waith. Er bod hyn ychydig yn llai na 2010/11 (96.7%), roedd Abertawe wedi codi pedwar safle o'r 14^{eg} i'r 10^{fed} yng Nghymru yn 2011/12.
- Yn 2011/12, cafodd ychydig llai o blant sy'n derbyn gofal gan y cyngor (87.5%) adolygiad prydlon o'u cynlluniau gofal na'r flwyddyn flaenorol (85.4%) ac roedd y perfformiad yn is na chyfartaledd Cymru (91.8%) er i Abertawe barhau yn y 19^{eg} safle yng Nghymru. Cafwyd llai o adolygiadau amddiffyn plant (94.23%) nag yn 2010/11 (98.35%), a hynny'n llai na chyfartaledd Cymru (96.9%) gydag Abertawe'n disgyn o'r 14^{eg} safle i'r 19^{eg} yng Nghymru yn 2011/12.
- Ystyrir erbyn hyn bod trefniadau newydd y cyngor i ddod â'r wybodaeth ynghyd o wahanol ffynonellau gan gynnwys adborth cwynion, sylwadau a chanmoliaeth, archwiliadau ffeiliau achosion a gwaith gyda phobl ifanc, yn rhan arferol o ddarpariaeth y cyngor i wella perfformiad a safon y gwasanaeth.

A oes rhywun yn well ei fyd?

Mae plant sy'n derbyn gofal yn cael eu cefnogi i fyw mewn trefniadau gofal sefydlog a parhaol.

- Adolygwyd gwasanaethau a threfniadau comisiynu a maethu a cheisiwyd recriwtio mwy o ofalwyr maeth i sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn cael sefydlogrwydd yn eu bywydau ac yn cael cyn lleied o newidiadau â phosib.
- Wedi gweithio gydag eraill i geisio cefnogi plant ag anghenion cymhleth i aros yn eu cymunedau heb orfod eu lleoli y tu allan i Abertawe.
- Ceisio dychwelyd o leiaf tri phlentyn sy'n derbyn gofal mewn man arall yn ôl i Abertawe.

Beth oedd effaith hynny?

- Mae nifer y plant yn Abertawe sy'n derbyn gofal yn ymddangos yn uchel o gofio'r ddemograffeg ac o'i gymharu â gweddill Cymru. Er bod 26 yn llai o blant yn gyffredinol yn derbyn gofal ar ddiwedd mis Mawrth 2012 o'i gymharu â mis Mawrth 2011, mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu o 432 yn 2008/09 i 554 yn 2011/12.
- Mae recriwtio mwy o ofalwyr maeth yn bwysig er mwyn i'r cyngor gael mwy o ddewis o ble i leoli plant sy'n derbyn gofal. Cynyddodd y cyngor nifer y gofalwyr maeth cofrestredig fel bod 221 ym mis Mawrth 2012 o'i gymharu â 215 ym mis Mawrth 2011. Cynyddodd nifer y gofalwyr maeth seibiant byr o 10 yn ystod 2011/12.
- Roedd Maethu Abertawe fodd bynnag yn llai llwyddiannus wrth recriwtio gofalwyr prif-ffrwd ychwanegol. Cafwyd adolygiad i wella'r broses gofrestru ac ymgeisio a darparu mwy o gefnogaeth i ofalwyr er mwyn gwella recriwtio a chadw.
- Cafodd 461 o blant (83%) eu lleoli gyda gofalwyr maeth neu rieni, teulu neu ffrindiau erbyn diwedd mis Mawrth 2012, sy'n llai na'r 500 o blant (86%) a leolwyd erbyn diwedd mis Mawrth 2011. Fodd bynnag, yr ystyriaeth bwysicaf yw lleoli plant yn briodol gyda'r gofalwr mwyaf addas o gofio pwysigrwydd parhad.
- Sefydloodd y cyngor dîm amlasiantaeth i helpu i gefnogi plant ag anghenion cymhleth penodol i aros yn eu cymunedau. Roedd y cynnydd fodd bynnag yn arafach na'r disgwyl.
- Lleolwyd llai o blant drwy'r trefniadau hyn na'r disgwyl ac roedd cymhlethdod anghenion y plant yn codi pryderon am sefydlogrwydd y lleoliadau; lleolwyd dau blentyn drwy'r trefniadau newydd hyn a methodd y ddau leoliad. Ym mis Mawrth 2012, lleolwyd 48% o blant o fewn ffiniau Abertawe o'i gymharu â 49% ym mis Mawrth 2011.
- Os nad yw eu teuluoedd eu hunain yn gallu gofalu am blant, gall y cyngor ddiogelu eu lles drwy eu derbyn i'w gofal. Mewn rhai achosion, gall plant gael eu lleoli y tu allan i Abertawe, ond bydd y cyngor bob amser yn ceisio eu dychwelyd lle bo hynny'n bosib ac yn ddiogel. Yn ystod 2011/12, llwyddodd y cyngor i ddychwelyd 4 plentyn a oedd yn derbyn gofal mewn mannau eraill y tu allan i Abertawe (1 yn fwy na'r targed).
- Mae'n bwysig bod plant sy'n derbyn gofal gan y cyngor yn cael bywyd cartref sefydlog er lles eu diogelwch a'u datblygiad a'u bod yn cael cyn lleied â phosib o newidiadau o ran lleoliadau. Cafodd 6.83% o blant sy'n derbyn gofal o leiaf tri lleoliad yn 2011/12, sy'n well na'r 11.94% yn 2010/11 a'r ail ganlyniad gorau ers 2005/06. Mae hynny'n golygu bod safle Abertawe wedi gwella o'r 20^{fed} safle yng Nghymru i'r 5^{ed}, yn ôl canlyniadau cenedlaethol 2011/12.

Mae plant yn cael eu diogelu'n effeithiol.

- Cafwyd adolygiad o'r cynnydd yn natblygiad Bwrdd Diogelu Abertawe er mwyn sicrhau ei fod yn diogelu plant yn effeithiol
- Datblygwyd ffyrdd gyda phartneriaid o gynorthwyo plant sy'n dioddef esgeulustod a helpu i leihau nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant oherwydd esgeulustod yn unig.

Beth oedd effaith hynny?

- Gall plentyn neu berson ifanc hyd at 18 oed ddioddef cam-drin neu esgeulustod a bod angen ei amddiffyn drwy gynllun amddiffyn plant rhyngasiantaeth. Roedd adroddiad Arolygiad AGGCC o'r Trefniadau Mynediad diweddar wedi nodi bod cynlluniau amddiffyn plant yn glir a bod pawb yn gytûn ar y camau gweithredu.
- Mae angen cynllun amddiffyn plant ar oddeutu 230 o blant ac mae hyn wedi parhau'n weddol sefydlog yn ystod 2011/12 sy'n awgrymu bod y trefniadau i amddiffyn plant yn effeithiol. Yn gyffredinol, roedd 26 yn llai o blant ar y gofrestr amddiffyn plant ar ddiwedd mis Mawrth 2012 na mis Mawrth 2011.
- Datblygodd y cyngor, mewn cydweithrediad ag eraill ar Fwrdd Diogelu Plant Abertawe, brotocol newydd i gynorthwyo plant sy'n dioddef esgeulustod. Roedd 22 yn llai o blant ar y gofrestr amddiffyn plant oherwydd esgeulustod yn unig ym mis Mawrth 2012 o'i gymharu â mis Mawrth 2011.

Y partneriaid y buom yn gweithio gyda hwy ar hyn	Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Bwrdd Diogelu Plant Abertawe
Adnoddau	Ffynhonnell adnoddau yw: Cyllideb Gwasanaethau Plant a Theuluoedd
Cysylltiad ag Amcanion Cydraddoldeb	Amcan Cydraddoldeb 14 - Lleihau'r anghydraddoldebau yn neilliannau iechyd, addysg ac economaidd plant sy'n byw mewn tloti, trwy wella deilliannau'r tlotaf.
Gweithgareddau gwella eraill y cyngor sy'n gysylltiedig	Cynllun Cyflwyno Strategol Plant a Theuluoedd. Rhaglen Strategol Plant a Theuluoedd.

Amcan Gwella 3:

Gwella deilliannau dysgu a helpu disgyblion i gyflawni eu potensial³.

Pam cafodd yr amcan hwn ei ddewis?

- Mae Abertawe yn gyffredinol wedi gweld cynnydd da dros y blynyddoedd diwethaf o ran arolygiadau ysgolion, safonau cyflawniad addysgol a lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant yn 16 oed.
- Mae gennym rai o'r ysgolion sy'n perfformio orau yng Nghymru o hyd ond hefyd, yn anffodus, rhai sy'n perfformio waethaf.
- Mae'n rhaid i Abertawe barhau i wella'r perfformiad cenedlaethol ar gyfer 7 oed, 11 oed a 14 oed a pharhau i fynd i'r afael â ffactorau cymdeithasol neu deuluol, megis tlodi, sy'n effeithio ar ganlyniadau dysgu.

At ba ganlyniad i Abertawe y mae hwn yn cyfrannu?

- Sicrhau cyfleoedd addysg rhagorol i bawb yn Abertawe.

Beth yw ein meysydd blaenoriaeth?

Meysydd Blaenoriaeth:

Mwy o blant a theuluoedd yn cael eu cefnogi drwy gynllun Dechrau'n Deg.

Mwy o blant hyd at 3 oed yn dangos datblygiad o ganlyniad i gynllun Dechrau'n Deg.

Caiff teuluoedd help i gefnogi dysgu yn y cartref.

Mwy o blant yn bresennol yn yr ysgol.

Llythrennedd plant yn gwella.

Mae gan blant gyrhaeddiad addysgol gwell rhwng 7 ac 11 a 14 ac 16 oed.

³ Sylwer bod perfformiad 2011/12 a 2010/11 yn ymwneud â blynyddoedd academaidd 2010/11 a 2009/2010 yn eu tro.

Llai o blant yn gadael yr ysgol heb gymhwyster ffurfiol.

Llai o blant 16 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

Adnoddau'n cael eu haildrefnu i ddiwallu anghenion, gwella safon yr amgylchedd dysgu a helpu i godi safonau cyflawniad

Mae plant ag anghenion addysgol arbennig ac anghenion dysgu ychwanegol yn cael cefnogaeth i gyflawni eu potensial.

Sut rydym yn perfformio yn ein meysydd blaenoriaeth?

Mae'r cyngor, yn ystod 2011/12, wedi parhau â'i ymagwedd at atal ac ymyrryd yn gynnar gyda'r bwriad o leihau effaith tlodi a hybu'r amgylchiadau angenrheidiol ar gyfer dysgu. Rhoddwyd y camau canlynol ar waith i geisio cyflawni'r meysydd blaenoriaeth:

Mwy o blant a theuluoedd yn cael eu cefnogi drwy gynllun Dechrau'n Deg.

- Ehangu dau leoliad lle cyflwynir rhaglen Dechrau'n Deg gydag arian Llywodraeth Cymru, gan ddefnyddio arian ychwanegol fel bod mwy o deuluoedd â phlant hyd at 3 oed yn gallu elwa o ofal plant am ddim, mwy o ymwelwyr iechyd, cefnogaeth i fagu plant a datblygu sgiliau sylfaenol, gan gynnwys y rhaglen iaith a chwarae.

Beth yw effaith hynny?

- Yn ystod 2011/12, roedd 1,430 o blant hyd at 3 oed a'u teuluoedd yn Abertawe yn cael eu cynnwys yn rhaglen Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru, gan gynnwys darpariaeth yn y Gymraeg, o'u cymharu â 1,254 yn 2010/11.
- Mae'r rhaglen yn helpu i chwalu rhwystrau ynghylch ysgolion ymhlith rhieni sy'n deillio o brofiadau gwael yn y gorffennol wrth i'r plant symud o gynllun Dechrau'n Deg i'r ysgol. Mae sawl plentyn wedi'u nodi bod ganddynt anawsterau iaith a lleferydd ac wedi cael therapi lleferydd yn gynt na'r arfer.
- Ymwelwyd ag ardaloedd Dechrau'n Deg eraill yng ngogledd a de Cymru yn ystod 2011/12 i weld y ddarpariaeth gofal plant, sy'n un o gonglfeini'r gwasanaethau a gyflwynir o dan Dechrau'n Deg. Daethpwyd i'r casgliad bod model Abertawe'n gweithredu'n unol ag arfer gorau ac yn darparu safon uchel ac ymagwedd gydlynol at nodi a diwallu anghenion y plant.

Adnoddau'n cael eu haildrefnu i ddiwallu anghenion, gwella safon yr amgylchedd dysgu a helpu i godi safonau cyflawniad.

- Wedi parhau â rhaglen i leihau nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion, gwella cyflwr ysgolion, cynyddu lleoedd addysg Gymraeg, symleiddio'r ddarpariaeth ôl-16 a chynyddu'r ddarpariaeth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Beth yw effaith hynny?

- Llai o leoedd gwag yn yr ysgolion Saesneg cynradd ac uwchradd er y cafwyd cynnydd bach yn y cyfnod cynradd yn 2010/11. Nifer y lleoedd mewn ysgolion Cymraeg wedi'u hehangu i fodloni'r galw, gydag ysgol gynradd newydd yn agor yn nwyrain Abertawe ym mis Medi 2011.
- Datblygwyd darpariaeth ychwanegol i blant ag anghenion dysgu ychwanegol yn 2011/12 gyda Chyfleuster Addysgu Arbenigol newydd yn agor yn Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt ym mis Medi 2012.

Caiff teuluoedd help i gefnogi dysgu yn y cartref.

- Wedi cyflwyno dull o'r enw 'Arfer Adferol' i rai o ysgolion yn Abertawe sy'n rhoi'r gallu i ddisgyblion a theuluoedd ddatrys problemau a gwrthdaro eu hunain fel bod gan bawb lais, ynghyd â phresenoldeb gwell yn yr ysgol, llai o waharddiadau o'r ysgol a phlant yn fwy parod i ddysgu. Cydnabu un o arolygiadau ysgol diweddar Estyn fod defnyddio Arfer Adferol yn Abertawe yn arfer eithriadol.
- Annog dysgu mewn teuluoedd fel rhan o raglen ehangach fel bod plant yn cael amgylchedd cefnogol yn y cartref a hynny'n eu helpu i ddatblygu yn yr ysgol, gyda'r bwriad o atal ac ymyrryd yn gynnar er mwyn lleihau effaith tlodi. Neilltuwyd wythnos gyfan i rannu arfer da ar hyn yn 2011/12 a nodwyd 5 cynrychiolydd i weithio gydag ysgolion penodol mewn dalgylchoedd arbennig.

Beth yw effaith hynny?

- Ymysg y manteision roedd presenoldeb gwell, cynnydd mewn agweddau ac ymddygiad cadarnhaol, teuluoedd yn ymwneud mwy â dysgu ac ymddygiad gwell gan ddisgyblion, y dylai'r rhain i gyd arwain at gyrhaeddiad addysgol gwell. Fodd bynnag, bydd rhaid monitro a fydd adnoddau digonol i gyflwyno'r rhaglenni hyn ar gael. Caiff deilliannau mwy hir dymor yr arferion hyn eu holrhain pan fydd disgyblion yn cael eu hasesu yn yr ysgol yn y dyfodol.

Mwy o blant yn bresennol yn yr ysgol.

- Ymgymryd â mentrau penodol i wella presenoldeb, gan gynnwys cefnogaeth a dargedir gan y Gwasanaeth Lles Addysg, rhannu arfer da a mabwysiadu ffyrdd newydd o weithio i wella'r amgylchiadau dysgu.

Beth yw effaith hynny?

- Yn dilyn gostyngiad bach mewn perfformiad rhwng 2008/09 a 2010/11, cafwyd cynnydd mewn presenoldeb ysgolion cynradd o 92.3% a'r 18^{fed} safle yng Nghymru yn 2010/11 i 92.9% a'r 16^{eg} safle yng Nghymru yn 2011/12. Fodd bynnag, mae hyn yn dal yn is na chyfartaledd Cymru yn 2011/12, sef 93.3%.
- Er bod gostyngiad mewn presenoldeb hefyd yn yr ysgolion uwchradd rhwng 2008/09 a 2010/11, cafwyd cynnydd o 90.6% a'r 18^{fed} safle yng Nghymru yn 2010/11 i 91% a'r 16^{eg} safle yng Nghymru yn 2011/12. Er bod hynny'n is na chyfartaledd Cymru, sef 91.4% yn 2011/12, roedd gan lai o ddisgyblion (llai nag 80%) bresenoldeb gwael iawn.

- Ni chafodd unrhyw blentyn ei wahardd yn barhaol o ysgolion cynradd yn Abertawe yn 2011/12 a chafodd llai na 5 disgybl eu gwahardd yn barhaol o'r ysgolion uwchradd. Cafodd 49 o ddisgyblion ysgolion cynradd yn Abertawe eu gwahardd am gyfnodau penodol yn 2011/12, sy'n well na 2010/11 (69 o waharddiadau cyfnodau penodol). Fodd bynnag, cafwyd ychydig yn fwy o waharddiadau tymor penodol o ysgolion uwchradd yn Abertawe yn 2011/12 (597) o'i gymharu â 2010/11 (572) yn erbyn gwelliant hir dymor ers 2006/07 (863).

Mae plant ag anghenion addysgol arbennig ac anghenion dysgu ychwanegol yn cael cefnogaeth i gyflawni eu potensial.

- Parhau i gefnogi plant ag anghenion addysgol arbennig ac anghenion dysgu ychwanegol i wella deilliannau addysgol a'u helpu i gyflawni eu potensial.

Beth yw effaith hynny?

- Mae'r cyngor wedi parhau â sawl menter yn ystod 2011/12 i gefnogi plant ag anghenion addysgol arbennig ac anghenion dysgu ychwanegol. Cytunwyd i agor cyfleuster addysgol arbennig newydd ar gyfer Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt a fydd yn agor yn hydref 2012; felly, bydd gan holl ysgolion uwchradd Abertawe gyfleuster addysgu arbenigol.
- Dirprwywyd yr arian i gefnogi disgyblion ag anghenion dwys a chymhleth yn llawn i ysgolion o fis Ebrill 2012 yn dilyn blwyddyn gyflwyno er mwyn i ysgolion ddod i arfer â'u cyfrifoldeb dros yr arian. Bydd hyn yn rhoi hyblygrwydd i ysgolion wrth ddiwallu anghenion disgyblion ac amddiffyn yr arian yn well rhag gorfod gwneud arbedion.
- Mae'r gwasanaeth addysg wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaethau Cymdeithasol, yr Heddlu, lechyd a'r sector gwirfoddol i ddatblygu'r gefnogaeth i ddisgyblion sydd mewn perygl o ymddieithrio cymdeithasol ac addysgol. Bydd cynllun pilot mewn dwy ysgol uwchradd a'u hysgolion partner yn Abertawe o fis Medi 2012 i brofi'r ymagwedd sy'n datblygu ar gyfer cefnogi'r disgyblion hynny sydd mewn perygl o gael eu heithrio o addysg yn well a'u cefnogi i barhau mewn addysg cyn ei gyflwyno'n llawn.
- Mae unedau cyfeirio disgyblion ar gyfer disgyblion 7 i 11 oed ac 11 i 14 oed a'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sy'n cael eu haddysgu mewn lleoliadau heblaw yn yr ysgol wedi'u cydleoili mewn ysgol gynradd wag i ffurfio un ganolfan addysgol. Y nod yw gwella amgylchedd dysgu'r disgyblion ac ystod y cwricwlwm y gellir ei gynnig yn ogystal ag enillion cyfalaf ac arbed costau i'r cyngor.
- Cafwyd adolygiad addysg Sipsiwn a Theithwyr gan gyflwyno newidiadau i'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn gweithredu o fis Medi 2012 er mwyn rhoi arfer gorau a argymhellir ar waith. Nod y newidiadau yw integreiddio disgyblion Sipsiwn a Theithwyr mewn ysgolion a gwella presenoldeb a deilliannau addysgol.
- Mae'r cyngor wedi parhau i gynnig cefnogaeth i grwpiau o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae disgyblion o gefndiroedd ethnig yn parhau i

gyflawni'n dda. Nid oedd unrhyw ddisgybl sy'n derbyn gofal drwy'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi methu cael cymhwyster cydnabyddedig. Mae gwella cyflawniad bechgyn a chefnogi'r disgyblion mwyaf galluog a thalentog yn parhau'n ffocws yn lleol ac yn genedlaethol.

A oes unrhyw rai yn well eu byd?

Mwy o blant hyd at 3 oed yn dangos datblygiad o ganlyniad i gynllun Dechrau'n Deg

- Plant wedi cael cyfle drwy raglen Dechrau'n Deg i wella'r deilliannau datblygol cyn dechrau ysgol feithrin yn 3 oed. Mae gofyn i Ymwelwyr Iechyd, fel rhan o raglen Dechrau'n Deg, asesu datblygiad sgiliau penodol plant yn 2 a 3 oed, megis iaith a lleferydd a sgiliau rhyngweithio a chymdeithasol.

Beth yw effaith hynny?

- Dangosodd arolwg o 22 o blant welliannau sylweddol y tu hwnt i'r disgwyladau. Mae sampl ar hap o blant o'r 7 lleoliad lle cynhelir Dechrau'n Deg hefyd yn dangos gwelliant yn natblygiad y plant yng nghyd-destun safonau'r Cyfnod Sylfaen sy'n well na'r disgwyl.
- Mae'r dystiolaeth yn dangos bod deilliannau llawer gwell gan blant Dechrau'n Deg o ran datblygiad plant ac iaith o'u cymharu â phlant sydd heb fod ar raglen Dechrau'n Deg. O ganlyniad i'r rhaglen, mae rhieni hefyd wedi cydnabod bod ganddynt fwy o hunanhyder, hunan-barch a sgiliau magu plant gwell, a hynny wedi bod o fudd i'w plant.

Llythrennedd plant yn gwella.

- Wedi cyflwyno Strategaeth Llythrennedd i ysgolion fesul cam i helpu i wella llythrennedd a chyrhaeddiad addysgol disgyblion.

Beth yw effaith hynny?

- Er gwaethaf peth oedi wrth gyflwyno'r strategaeth, mae disgyblion sy'n cael anhawster gyda'u darllen yn cael asesiad o'u hanawsterau ac eir i'r afael â hynny drwy raglen strwythuredig. Mae prosiect hefyd ar y gweill i ddatblygu llefaredd yn y blynyddoedd cynnar oherwydd bod angen sgiliau llefaredd da er mwyn gallu cyfathrebu cyn gallu darllen.
- Mae canlyniadau o'r arolwg darllen blynyddol (Prawf Cymru Gyfan) yn dangos bod gwelliant yn ystod y tair blynedd diwethaf yn 11 oed, a hynny'n cael ei adleisio gan ddeilliannau gwell Cyfnod Allweddol 2 (7 i 11 oed).

Mae gan blant gyrhaeddiad addysgol gwell rhwng 7 ac 11 a 14 ac 16 oed.

- Mae gwaith parhaus i dargedu ymyrryd ac atal cynnar i leihau effaith tldi a hyrwyddo'r amgylchiadau angenrheidiol ar gyfer dysgu. Dylai hyn helpu i wella presenoldeb, ymddygiad ac ymroddiad disgyblion a chyrrhaeddiad addysgol. Dylai'r gwaith i wella llythrennedd disgyblion hefyd helpu i wella cyrrhaeddiad disgyblion 7 i 11 oed ac wedi hynny.

Beth yw effaith hynny?

- Ymhlith disgyblion 7 i 11 oed (Cyfnod Allweddol 2) yn 2011/12, cyflawnodd 80.8% o blant y safon ofynnol yn y Gymraeg neu'r Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd, sy'n well na pherfformiad 2010/11 (77.5%) ac yn well na chyfartaledd Cymru (80.3%); Aeth Abertawe o'r 19^{eg} safle i'r 16^{eg} safle yng Nghymru.
- Ymhlith disgyblion 14 i 16 oed (Cyfnod Allweddol 4) yn 2011/12, cyflawnodd 53% o ddisgyblion y safon ofynnol gan gynnwys gradd A* i C yn y Gymraeg neu'r Saesneg iaith gyntaf a mathemateg, sy'n well na chyfartaledd Cymru 50.1% ac yn well na chanlyniad Abertawe yn 2010/11, sef 52.1%.

Llai o blant yn gadael yr ysgol heb gymhwyster ffurfiol.

- Gweithio i sicrhau bod llai o blant yn gadael yr ysgol heb gymhwyster ffurfiol drwy ymdrechion penodol i gynnwys disgyblion a'u teuluoedd a gwella'r amodau ar gyfer dysgu.

Beth yw effaith hynny?

- Yn 2011/12, roedd 0.43% (11 o 2,557 o ddisgyblion) wedi gadael yr ysgol heb gymhwyster cydnabyddedig, a hynny'n well na chyfartaledd Cymru (0.6%) ac yn well na pherfformiad Abertawe yn 2010/11 (0.89%); Symudodd Abertawe o'r 15^{fed} i'r 11^{eg} safle gydradd yng Nghymru.

Llai o blant 16 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

- Wedi lleihau nifer y disgyblion 16 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) drwy gymryd rhan ym mhrosiect 'Cadw mewn Cysylltiad' (KIT) gyda Gyrfa Cymru Gorllewin er mwyn nodi a chefnogi disgyblion sydd mewn perygl o fod yn NEET yn llwyddiannus.

Beth yw effaith hynny?

- Yn 2011/12 am yr ail flwyddyn yn olynol, cysylltwyd â'r holl adawyr ysgol Blwyddyn 11 i weld beth roedden nhw'n ei wneud ers cyrraedd oedran gadael ysgol. Mae ehangu prosiect KIT i olrhain carfan disgyblion 2009 drwodd i 18 oed yn mynd yn ei flaen gyda chefnogaeth well gan ddarparwyr, yn enwedig addysg bellach, yn cael ei datblygu. Mae hyn yn parhau'r cyswllt â'r bobl ifanc ac yn lleihau'r nifer sy'n gadael ac felly'n gostwng nifer y disgyblion sydd mewn perygl o fod yn NEET yn 16 oed.
- Gostyngodd nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yn 16 oed eto yn Abertawe i 3.1% (79 disgybl) yn 2011/12, sy'n well na 2010/11 (4.2% neu 110 o ddisgyblion). Mae Abertawe yn y 7^{fed} safle'n gyffredinol

<p>ond yn 3^{ydd} o gynnwys yr 'anhysbys' (nid oes gan Abertawe 'yr anhysbys') a dyma'r perfformiad gorau gan unrhyw awdurdod trefol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cafodd y 79 disgybl nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn Abertawe yn 2011/12 gyfle arall i gael eu cynnwys mewn cefnogaeth gan Gyrfa Cymru Gorllewin gyda'r posibilrwydd o ddod o hyd i leoliad yn y dyfodol. 	
Y partneriaid y buom yn gweithio gyda hwy ar hyn	Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Consortiwm Rhanbarthol De-orllewin a Chanolbarth Cymru o awdurdodau lleol (swamwac)
Adnoddau	Ffynhonnell adnoddau yw: y Gyllideb Addysg, grantiau allanol
Cysylltiad ag Amcanion Cydraddoldeb	Amcan Cydraddoldeb 14 - Lleihau'r anghydraddoldebau yn neilliannau iechyd, addysg ac economaidd plant sy'n byw mewn tloti, trwy wella deilliannau'r tlotaf.
Gweithgareddau gwella eraill y cyngor sy'n gysylltiedig	Cynllun Busnes Addysg. Cynllun Plant a Phobl Ifanc. Rhaglen Strategol AoS 2020.

Amcan Gwella 4

Lleihau gwastraff a chynyddu compostio ac ailgylchu drwy hyrwyddo a hwyluso cyflwyno gwasanaethau rheoli gwastraff ac ailgylchu.

Pam cafodd yr amcan hwn ei ddewis?

- Mae'r cyngor am annog dinasyddion i wneud eu rhan a chydabod eu cyfraniad hwy at amddiffyn adnoddau cyfyngedig. Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor leihau swm y gwastraff bioddiraddadwy a anfonir i safleoedd tirlenwi bob blwyddyn, neu bydd yn wynebu dirwyon am beidio â chyflawni'r targedau a bennwyd.
- Drwy sicrhau bod casglu gwastraff o ymyl y ffordd ar ei orau, rydym yn hybu ailgylchu gwastraff ac yn ceisio atal pobl rhag tipio sbwriel yn anghyfreithlon.
- Bydd lleihau swm y gwastraff a gynhrychir ynghyd â chynyddu lefelau'r gwastraff sy'n cael ei ailgylchu/gompostio yn gwella'n gallu'n sylweddol i fodloni targedau Llywodraeth Cymru, osgoi dirwyon a helpu i ddiogelu adnoddau prin.
- Mae lleihau gwastraff a chynyddu compostio ac ailgylchu yn rhan effeithiol o'r strategaeth i leihau tipio anghyfreithlon.

At ba ganlyniad i Abertawe y mae hwn yn cyfrannu?

- Gwella amgylchedd Abertawe i bawb.

Beth yw ein meysydd blaenoriaeth?

Meysydd Blaenoriaeth:

Llai o wastraff yn mynd i safleoedd tirlenwi a mwy o wastraff yn cael ei ailgylchu, ei gompostio neu ei aildddefnyddio.

Llai o dipio anghyfreithlon a chlirio tipio anghyfreithlon yn gynt.

Sut rydym yn perfformio yn ein meysydd blaenoriaeth?

Yn ystod 2011/12, mae'r cyngor wedi ymgymryd â'r gwaith canlynol i geisio cyflawni'r meysydd blaenoriaeth:

Llai o wastraff yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi a mwy'n cael ei ailgylchu, ei gompostio neu ei aildefnyddio.

- Parhau i gyflwyno'r casgliadau gwastraff am yn ail wythnos i bob rhan o Ddinas a Sir Abertawe a chasgliadau gwastraff bwyd o fflatiau er mwyn annog pobl i ailgylchu mwy.
- Adolygu rôl ac amcanion Fforwm Gwastraff Abertawe ac wedi datblygu cynllun i weithio'n agosach â chymunedau i annog ailgylchu.
- Parhau i gwrdd â grwpiau gwirfoddol a datblygu syniadau gyda hwy a Phartneriaeth Cynghrair Ailgylchu Cymunedol Abertawe (SCRAP) i hyrwyddo mwy o ailgylchu.
- Annog aelodau SCRAP sy'n elusennau cofrestredig i ddefnyddio'r cynllun credydau aildefnyddio/ailgylchu, sy'n golygu eu bod yn cael taliad yn gyfnewid am ailgylchu eitemau megis dillad.
- Parhau i weithredu nifer o fentrau i gynyddu ailgylchu yn Abertawe, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae llai o bobl yn cymryd rhan. Mae hyn yn cynnwys curo drysau i gynyddu'r ymwybyddiaeth o ailgylchu, gwaith ymwybyddiaeth mewn ysgolion, hyrwyddo cewynnau go iawn fel dewis arall i gewynnau tafladwy a gwaith i ddenu mwy o fusnesau i lofnodi cytundebau â'r cyngor i gasglu ac ailgylchu gwastraff.
- Mewn partneriaeth â Tîm Datblygu Gwaith y Gwasanaethau Cymdeithasol, mae Tîm Gweithredu ar Wastraff Abertawe sy'n gweithio o Glydach, yn aildefnyddio ac yn ailgylchu gwastraff domestig swmpus a gasglwyd gan drigolion.
- Datblygu cynllun gwaith i ymgorffori argymhellion adolygiad Bwrdd Trosolwg a Chraffu Amgylchedd a Chymunedau'r cyngor i leihau gwastraff ac ailgylchu.
- Datblygu Strategaeth Rheoli Gwastraff dros y 5 mlynedd nesaf i barhau i leihau tirlenwi a chynyddu ailgylchu.

Beth oedd effaith hynny?

- Mae gwastraff bellach yn cael ei gasglu bob yn ail wythnos ar draws Dinas a Sir Abertawe i gyd.
- Mae tua 9,274 o gyfanswm o 10,792 o fflatiau wedi cael cynnig ac yn derbyn casgliadau gwastraff bwyd.

- O ganlyniad i'r gwaith hwn, mae swm y gwastraff sy'n mynd i'w dirllenwi wedi gostwng o 59% yn 2010/11 i 54.4% yn 2011/12. Fodd bynnag, mae hyn yn dal i olygu bod Abertawe yn mynd o'r 20fed safle i'r 21ain yng Nghymru a pherfformiad sy'n waeth na chyfartaledd Cymru (44.73%). Yn yr un modd, cafwyd cynnydd cyfatebol yn swm y gwastraff sy'n cael ei ailgylchu o 40% yn 2010/11 i 45.15% yn 2011/12. O ganlyniad, mae safle Abertawe yn genedlaethol wedi gwella o'r 18^{fed} i'r 16^{eg} ar sail canlyniadau cenedlaethol 2011/12, er bod y perfformiad yn is na chyfartaledd Cymru o hyd (48.53%). Er gwaethaf y gwelliannau hyn, mae'r her i gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru yn parhau i'r blynyddoedd nesaf.
- Yn ôl arolwg yn 2011, roedd 61.3% o'r ymatebwyr yn fodlon ar y cynigion i newid i gasgliadau bob yn ail wythnos, a gynyddodd i 82% pan roddwyd y trefniadau newydd ar waith.

Llai o dipio anghyfreithlon a chlirio tipio anghyfreithlon yn gynt.

- Gweithio i geisio lleihau tipio anghyfreithlon drwy orfodi a gwreiddio'r trefniadau casgliadau gwastraff am yn ail wythnos. Caiff y manau problemus eu monitro'n rheolaidd a'u clirio gan gau'r mynediad i rwystro troseddau eto. Cafwyd ymgrych stopio a chwilio cerbydau i sicrhau cydymffurfio â rheoliadau cludo gwastraff ac mae'r diwrnodau gweithredu ymwybyddiaeth gymunedol yn parhau. Ceisir mynd i'r afael â phroblemau sy'n gysylltiedig â sachau sbwriel/ailgylchu'n cael eu rhoi i'w casglu ar y diwrnod anghywir drwy addysgu, ac os bydd rhaid, drwy anfon llythyron rhybuddio a thrwy gamau gorfodi pan fo'n briodol
- Parhau i weithio gydag ysgolion lleol gan roi sgysiau a gweithdai i blant am bwysigrwydd ailgylchu a pheidio â gollwng sbwriel. Mae gan y cyngor bellach ystafell ddosbarth ddynodedig yng Nghlydach y gellir ei defnyddio ar gyfer y gweithgareddau hyn.

Beth oedd effaith hynny?

- Gall tipio anghyfreithlon amrywio o un sach ddu ar balmart i symiau mawr o wastraff sy'n cael eu gollwng ar ddarnau o dir agored. Mae lleihau gwastraff a chynyddu compostio ac ailgylchu yn effeithiol yn rhan bwysig o'r strategaeth i leihau tipio anghyfreithlon. Cafwyd llai o achosion o wastraff domestig mewn sachau sy'n cael eu gadael yn anghyfreithlon, ond mae'n rhaid parhau i sicrhau bod gwastraff domestig yn cael ei roi i'w casglu yn briodol fel rhan o'r trefniadau casglu sbwriel bob yn ail wythnos.
- Mae gorfodi hefyd yn rhan bwysig o'r strategaeth i leihau tipio anghyfreithlon. Yn 2011/12 cafwyd 3 achos cyfreithiol a 2 rybudd syml ar gyfer tipio anghyfreithlon yn dilyn 40 o ymchwiliadau.
- Yn 2011/12 cafwyd 2,076 o achosion o dipio anghyfreithlon, sy'n well na'r 2,934 o achosion yn 2010/11. Fodd bynnag, roedd y cyngor wedi clirio llai o achosion o dipio anghyfreithlon o fewn yr amser gosodedig yn 2011/10 (86.1%) o'u cymharu â 2010/11 (92.5%) oherwydd newidiadau gweithredol a threfniadol y bydd angen amser arnynt i wreiddio. Roedd y perfformiad wrth glirio tipio anghyfreithlon yn brydlon yn is na chyfartaledd Cymru (91.36%) er bod Abertawe'n aros yn yr 17^{eg}

yng Nghymru.

A oes rhywun yn well ei fyd?

- Bydd pobl Abertawe'n well eu byd os bydd y cyngor yn bodloni'r targedau ailgylchu ac yn osgoi dirwyon a chosbau ariannol Llywodraeth Cymru, a allai effeithio'n andwyol ar wasanaethau.
- Roedd arolwg yn 2011 yn dangos bod tua 72% o'r ymatebwyr yn cytuno bod y newid i gasgliadau bob yn ail wythnos wedi eu hannog i gynyddu maint y gwastraff maent yn ei ailgylchu.
- Yn yr un arolwg, cafwyd bod 81% o ymatebwyr o'r farn fod tipio anghyfreithlon wedi gwella neu wedi aros yr un peth.

Y partneriaid y byddwn yn gweithio gyda hwy

Fforwm Amgylcheddol Abertawe
Fforwm Gwastraff Abertawe.
Partneriaeth Ailgylchu Gymunedol Abertawe.

Adnoddau

Ffynhonnell adnoddau yw: Cyllideb yr Amgylchedd, grantiau allanol

Cysylltiad ag Amcanion Cydraddoldeb

Amcan Cydraddoldeb 26 - Gwella prosesau a gweithdrefnau mewnol yn y gwasanaethau sy'n ymwneud ag amgylchedd Abertawe er mwyn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb nid yn unig yn cael eu cynnwys ond bod y canlyniadau sy'n dilyn wedi'u seilio ar yr wybodaeth berthnasol

Gweithgareddau gwella eraill y cyngor sy'n gysylltiedig

Strategaeth Rheoli Gwastraff/Cynllun Busnes.
Rhaglen Strategol Rheoli Gwastraff

Amcan Gwella 5

Gwella cyflogadwyedd pobl drwy gynyddu effaith rhaglen adfywio'r cyngor i gynnig a hwyluso hyfforddiant a lleoliadau profiad gwaith.

Pam cafodd yr amcan hwn ei ddewis?

- Mae'r argyfwng ariannol byd-eang a'r dirwasgiad wedi effeithio ar economi Dinas a Sir Abertawe a'i ddinasyddion, a bydd yn parhau i wneud. Mae'r gwerthoedd economaidd diweddaraf yn dangos bod cyfradd gweithgaredd economaidd Abertawe yn is na gweddill Cymru a'r DU⁴.
- Mae gan Abertawe nifer o gymunedau â chyfraddau hawlwy'r diweithdra llawer uwch na chyfartaledd Abertawe.
- Mae gan Abertawe bron dair gwaith nifer yr hawlwy'r budd-dal analluogrwydd a'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth newydd nag o hawlwy'r y Lwfans Ceisio Gwaith. Mae'r ffigurau hyn yn uwch na rhai Cymru a'r DU⁵; unwaith eto, mae crynodiadau lleol o hawlwy'r yn Abertawe.
- Mae gan economi Abertawe gyfradd uwch o swyddi yn y sector cyhoeddus. mae 31.8% yn gweithio yn y sector cyhoeddus o'u cymharu â 27.9% yng Nghymru⁶.
- Mae gostyngiadau gwario pellach yn debygol, gan olygu y disgwylir i'r sector cyhoeddus leihau. Mae dinasoedd fel Abertawe, sy'n dibynnu ar gyflogaeth y sector cyhoeddus, yn arbennig o ddi-amddiffyn.
- Bydd rhaid i Ddinas a Sir Abertawe baratoi ar gyfer canlyniadau gostyngiadau pellach i faint gweithlu'r sector cyhoeddus⁷.

At ba ganlyniad i Abertawe y mae hwn yn cyfrannu?

- Gwneud Abertawe'n fwy ffyniannus i bawb.

⁴ **Ffynhonnell** : Data Arolwg Flynyddol o'r Boblogaeth (APS) ar gyfer y cyfnod 12 mis yn dod i ben ym mis Mehefin 2011, SYG.

⁵ **Ffynhonnell**: www.DWP/Nomis

⁶ **Ffynhonnell**: Dadansoddiad cyflogaeth y Gofrestr Fusnes a'r Arolwg Cyflogaeth (BRES), 2010. SYG.

⁷ **Ffynhonnell**: Centre for Cities (2009) Public Sector Cities: Trouble Ahead, Centre for Cities: Llundain

Beth yw ein meysydd blaenoriaeth?

Mwy o gymalau budd cymdeithasol i'w cynnwys mewn contractau adfywio drwy'r cynllun *Tu Hwnt i Frics a Morter*.

Mwy o bobl yn mynd i faes cyflogaeth o ganlyniad i gymryd rhan yn y cynllun *Gweithffyrdd*.

Sut rydym yn perfformio yn ein meysydd blaenoriaeth?

Yn ystod 2011/12, mae'r cyngor wedi ymgymryd â'r gwaith canlynol i geisio cyflawni'r meysydd blaenoriaeth:

Mwy wedi cofrestru ar fentrau *Gweithffyrdd* a'r *Tu Hwnt i Frics a Morter*.

- Mwy o waith ar y cyd gyda'r tri chyngor arall yn y rhanbarth drwy brosiect *Gweithffyrdd* i weithio gyda chyflogwyr a'r anweithgar yn economaidd a'r di-waith i'w helpu i ddychwelyd i gyflogaeth. Mae hyn yn cynnwys denu cyflogwyr a chyfranogwyr i'r prosiect, cydweddu cyflogwyr â chyfranogwyr a darparu cefnogaeth a mentora i gyfranogwyr ac adolygu eu cynnydd.
- Parhau i roi'r cynllun *Y Tu Hwnt i Frics a Morter* ar waith, sy'n defnyddio cymalau budd cymdeithasol mewn contractau adfywio er mwyn rhoi cyflogaeth a chyfle hyfforddi i'r di-waith tymor hir a'r anweithgar yn economaidd. Gwneir hyn drwy gynyddu nifer y prosiectau sy'n cynnwys cymalau budd cymdeithasol, gan weithio i gynyddu nifer y mentrau BaCh, a phartneriaid yn cytuno i fod yn rhan o'r cynllun a'u helpu i gyflawni eu rhwymedigaethau o dan y cynllun. Mae hefyd yn cynnwys cefnogi mentrau BaCh i ddod yn rhan o gadwyn gyflenwi'r cyngor a darparu hyfforddiant a chyfleoedd gwaith i'r di-waith tymor hir.

Beth oedd effaith hynny?

- Roedd 672 o unigolion wedi cofrestru ar brosiect *Gweithffyrdd* yn ystod 2011/12; adolygwyd cynlluniau gweithredu unigol 605 ohonynt yn eu blwyddyn gyntaf i drafod eu cynnydd wrth geisio dychwelyd i waith.
- Cynyddodd y cyngor gyfanswm y nifer a gytunodd i fod yn rhan o fenter *Y Hwnt i Frics a Morter* o 61 yn 2010/11 i 85 yn 2011/12. Roedd hynny'n rhagori ar y targed (73) ac yn cynyddu'r cyfle i ddod o hyd i hyfforddiant a chyfleoedd gwaith i'r hyfforddeion.
- Cafwyd cynnydd yn nifer y prosiectau sector cyhoeddus a oedd yn cynnwys cymalau budd cymdeithasol ac *Y Tu Hwnt i Frics a Morter* yn eu contractau o 9 yn 2010/11 i 12 yn 2011/12. Roedd hynny'n cyrraedd y targed ac yn cynyddu'r cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth.

- Rhoddwyd cefnogaeth datblygu cyflenwyr i 214 o fentrau BaCh yn 2011/12 a hynny ar sail digwyddiadau a gynhaliwyd i'r perwyl hwnnw. Bwriad y digwyddiadau oedd cynyddu'r ymwybyddiaeth o fenter *Y Tu Hwnt i Frics a Morter* a sicrhau bod mentrau BaCh yn fwy gwybodus wrth dendro am gontractau er mwyn cael cymalau budd cymdeithasol. Roedd yr adborth cadarnhaol ar y gefnogaeth a'r wybodaeth a gafwyd yn y digwyddiadau hyn yn 2011 yn amrywio o 81% i 96%.

A oes rhywun yn well ei fyd?

Mwy o bobl yn mynd i faes cyflogaeth o ganlyniad i gymryd rhan ym mhrosiect *Gweithffyrdd*.

- Cynnwys cyflogwyr i'w cysylltu â chyfranogwyr *Gweithffyrdd* i ddarparu cyfleoedd cyflogaeth.
- Darparu gwaith dros dro a chyfleoedd swydd i gyfranogwyr *Gweithffyrdd* i hwyluso'u llwybr yn ôl i'r farchnad lafur ac ailsefydlu patrymau ymddygiad ac agwedd meddwl sy'n arwain at gael a chadw swydd.

Beth oedd effaith hynny?

- Yn 2011/12, cafodd 148 o gyfranogwyr *Gweithffyrdd* gyfweiliad am swydd, roedd 188 wedi cwblhau cwrs a 18 wedi mynd i waith gwirfoddol.
- Aeth 201 o gyfranogwyr *Gweithffyrdd* i gyflogaeth yn 2011/12, ac er yn llai na'r targed (285) a chanlyniad 2010/11 (oherwydd y newidiadau i gymhwyster a'r cynnydd cysylltiedig mewn cyfeiriadau a diffyg tîm llawn o staff y prosiect ar y pryd yn rhoi pwysau ar staff *Gweithffyrdd*), mae'n golygu bod y cyfranogwyr hynny wedi elwa o'r prosiect. Mae cyfanswm o 402 o gyfranogwyr wedi mynd i gyflogaeth hyd at 31 Mawrth 2012.
- Pan ofynnwyd i gyfranogwyr a oedd *Gweithffyrdd* wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w gobeithion am swyddi ai peidio, atebodd 74% o'r rhai a ymatebodd yn gadarnhaol.

Mwy o gymalau budd cymdeithasol i'w cynnwys mewn contractau adfywio drwy'r cynllun *Y Tu Hwnt i Frics a Morter*.

- Annog datblygwyr, cyflogwyr a sefydliadau partner i ddarparu lleoliadau hyfforddi a chyflogaeth.
- Trafod *Y Tu Hwnt i Frics a Morter* gyda mentrau BaCh sy'n ceisio am grantiau i asesu unrhyw gyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth fel rhan o gefnogaeth ariannol y byddent yn ei derbyn

Beth oedd effaith hynny?

- Darparwyd hyfforddiant 1052 o wythnosau person gan contractwyr sydd wedi cytuno i fod yn rhan o brosiect *Y Tu Hwnt i Frics a Morter* yn 2011/12. Lleolwyd 47 o hyfforddeion gyda 29 o contractwyr yn 2011/12 ac roedd 30 o hyfforddeion yn dal yn eu lleoliadau ar ddiwedd y flwyddyn. Cafodd 34 a oedd yn derbyn 778 o wythnosau hyfforddi eu lleoli gyda sefydliadau partner o ganlyniad i brosiect *Y Tu Hwnt i Frics a Morter* yn 2011/12.
- Trafododd y cyngor gyfleoedd prosiect *Y Tu Hwnt i Frics a Morter* gyda 5 menter BaCh a oedd wedi ymgeisio am grantiau'r Rhaglen Gwella Busnes (BEP), sy'n llai na'r flwyddyn 2010/11 (8 menter BaCh). Digwyddodd hyn oherwydd bod y cynllun wedi'i ailbroffilio fel bod *Y Tu Hwnt i Frics a Morter* yn cael ei gynnwys dim ond mewn prosiectau sy'n werth mwy na £75,000. O ganlyniad, cafwyd 33 o wythnosau hyfforddi a phrofiad gwaith i hyfforddeion ar contractau BEP yn 2011/12.
- Dywedodd 80% o gyfranogwyr *Y Tu Hwnt i Frics a Morter* a ddychwelodd arolwg eu bod wedi elwa'n bersonol o'u lleoliadau, sy'n llai na'r nifer yn 2010/11 (100%), ond mae'r canlyniad wedi'i ystumio gan yr ymateb bach i'r arolwg.

Y partneriaid y byddwn yn gweithio gyda hwy	Partneriaeth Adfywio Economaidd Abertawe Bwrdd Gwasanaethau Lleol Awdurdodau lleol eraill Mentrau Bach a Chanolig
Adnoddau	Ffynhonnell adnoddau yw: Cyllideb Adfywio, grantiau allanol
Cysylltiad ag Amcanion Cydraddoldeb	Amcan Cydraddoldeb 1 - Sicrhau bod ymgynghori a chynnwys yn gynhwysol a chynrychiadol. Amcan Cydraddoldeb 3 - Adolygu holl bolisiâu AD i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Amcan Cydraddoldeb 7 - Cydymffurfio â'n dyletswydd i gyhoeddi Data Gweithlu/Gwybodaeth Gyflogaeth Amcan Cydraddoldeb 14 - Lleihau'r anghydraddoldebau yn neilliannau iechyd, addysg ac economaidd plant sy'n byw mewn tloti, trwy wella deilliannau'r tlotaf.
Gweithgareddau gwella eraill y cyngor sy'n gysylltiedig	Strategaeth Adfywio Economaidd Abertawe. Cynllun Busnes Adfywio a Chynllunio Rhaglen adfywio.

Gellir dod o hyd i fanylion canlyniadau perfformiad 2011/12 ⁸ ar gyfer Amcanion Gwella'r cyngor a mesurau perfformiad eraill drwy glicio [yma](#).

⁸ Gwneir cymariaethau perfformiad â Chymru ar sail canlyniadau cenedlaethol 2010/11 lle nad oedd ffigurau 2011/12 ar gael ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

Rhan 3 - Gwybodaeth am berfformiad a sut mae'n cael ei defnyddio

Rhagarweiniad

Mae awdurdod lleol Dinas a Sir Abertawe'n cyflwyno ystod eang o wasanaethau i bobl Abertawe. Mae'n rhaid i'r cyngor gynllunio pa wasanaethau y bydd yn eu cyflwyno yn ôl yr adnoddau sydd ar gael. Mae'n rhaid i'r cyngor sicrhau bod ei wasanaethau'n diwallu anghenion a dyheadau pobl Abertawe a'u bod yn effeithiol ac yn darparu gwerth am arian. Mae'n anochel y bydd gan y cyngor lawer o amcanion wrth gofio am yr anghenion y mae'n rhaid eu diwallu a'r dyletswyddau mae'n rhaid iddo eu cyflawni. Caiff rhai o'r amcanion hyn eu pennu'n lleol ac mae rhai ohonynt yn rhwymedigaethau o ganlyniad i ddeddfwriaeth a basiwyd gan lywodraethau cenedlaethol neu ranbarthol neu drwy'r UE. Mae'n rhaid i'r cyngor wrando ar bobl Abertawe a gweithio gyda'i bartneriaid i flaenoriaethu'r holl rwymedigaethau hyn.

Cynllunio gwasanaethau

Mae'r cyngor yn gweithio gyda'i bartneriaid bob pedair blynedd i bennu'r blaenoriaethau cyfunol ar gyfer holl bobl Abertawe. Cyhoeddir y blaenoriaethau ar y cyd hyn mewn 'Cynllun Cymunedol'⁹, sydd wedyn yn cael ei gyflwyno a'i fonitro ar y cyd â phartneriaid.

Mae'n rhaid i'r cyngor hefyd benderfynu ar ei flaenoriaethau ei hun bob blwyddyn. Mae'r cyngor yn ymgynghori â phobl Abertawe a rhanddeiliaid eraill ac yn eu cynnwys i helpu i benderfynu ar ei flaenoriaethau ar gyfer gwella, sydd wedyn yn cael eu cynnwys mewn 'Cynllun Gwella Corfforaethol' (CGC). Mae'r cyngor yn mabwysiadu'r CGC ac yn ei asesu drwy drefniadau craffu'r cyngor. Caiff y CGC ei fonitro drwy drefniadau gwella corfforaethol y cyngor.

Mae pob gwasanaeth yn y cyngor yn cynhyrchu Cynllun Busnes 4 blynedd. Caiff pob cynllun ei adolygu'n flynyddol ac mae'n disgrifio sut bydd gwasanaethau'r cyngor yn cyflawni eu hamcanion eu hunain ac yn cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau'r cynlluniau cymunedol a chorfforaethol. Mae'r cynlluniau'n cysylltu cynllunio gwasanaethau, cynllunio ariannol a chynllunio'r gweithlu ac yn golygu bod gwasanaethau'n cael eu cynllunio o fewn fframwaith dyletswyddau ehangach, megis sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cyflwyno'n gyfartal ac yn deg a'u bod yn gynaliadwy. Aed ati yn 2011/12 i wreiddio a mireinio Cynllunio Busnes eto, a gafodd ei gyflwyno am y tro cyntaf flwyddyn cyn hynny.

Monitro perfformiad a chraffu arno

Mae'n bwysig bod cyflwyno cynlluniau a gwasanaethau'r cyngor yn cael ei fonitro o safbwynt effeithiolrwydd. Mae'r cyngor yn monitro ac yn adrodd am berfformiad gwasanaethau yn ôl targedau cytunedig bob chwarter a phob blwyddyn yn y Cabinet a thrwy brosesau Craffu. Mae hyn yn rhoi cyfle i

⁹ Caiff y 'Cynllun Cymunedol' ei ddisodli gan y 'Cynllun Integredig Sengl' a gellir gweld y cynnydd [yma](#)

ystyried unrhyw broblemau a'u datrys a hefyd gyfeirio penderfyniadau ar wario a sut mae dyrannu adnoddau eraill. Mae'r cyngor hefyd yn ymgynghori â phobl Abertawe ac eraill ac yn eu cynnwys wrth ganfod eu barn am y gwasanaethau a ddarperir gan y cyngor, ac mae cwynion a chanmoliaeth gan y cyhoedd a defnyddwyr gwasanaethau hefyd yn ffynhonnell wybodaeth a ddefnyddir i wella gwasanaethau.

Mae Byrddau Trosolwg a Chraffu y Cyngor¹⁰ yn bwysig er mwyn i aelodau etholedig alw gweithrediaeth y cyngor i gyfrif am y penderfyniadau a wnaed ac am berfformiad gwasanaethau'r cyngor. Maent yn gweithredu fel 'cyfaill beirniadol' i'r Cabinet a llunwyr penderfynwyr eraill yn y cyngor er mwyn hyrwyddo gwasanaethau, polisiau a phenderfyniadau gwell. Bydd y Byrddau weithiau'n ymgymryd â thasgau gwaith manwl a chynhyrchu adroddiadau ac argymhellion i'r Cabinet i'w hystyried. Yn 2011/12, cwblhaodd y Byrddau nifer o adolygiadau manwl, sef:

- Beth yw'r ffordd orau o gefnogi pobl sy'n gadael gofal yn Abertawe?
- Adolygiad o Ganol Dinas Abertawe.
- Adolygu rôl Cynorthwywyr Addysgu ar draws y sector cynradd yn Abertawe.
- Adolygu'r Gwasanaethau Cefnogi i ofalwyr yn Abertawe.

Gellir gweld gwerthusiad o'r gwaith a wnaed gan Fyrddau Craffu'r cyngor ar wefan y cyngor drwy glicio [yma](#).

Rheoli risgiau

Mae cyflwyno amrywiaeth eang o wasanaethau fel hyn, a hynny'n aml yn ôl fframweithiau rheoleiddio ar adeg pan fo cyllidebau ac adnoddau o dan straen sylweddol, yn golygu bod y cyngor yn gynyddol yn gorfod ymdopi ag ansicrwydd a rheoli newid. Ar yr un pryd, mae'r cyngor hefyd o dan bwysau cynyddol i gyflwyno gwasanaethau gwell mewn ffyrdd newydd a blaengar. Mae hyn yn golygu bod risg (a chyfle) yn anorfod y mae'n rhaid ei reoli'n effeithiol.

Caiff risg ei reoli ar lefelau gwahanol yn y cyngor gan amrywio o brosiectau unigol lle rheolir y risgiau oddi mewn iddynt, i risgiau sy'n effeithio ar y gymuned gyfan, megis perygl llifogydd, ac mae'r rhain yn cael eu nodi a'u rheoli ar y cyd gan y cyngor a'i bartneriaid drwy'r trefniadau cydnerthu.

Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall gwahaniaethau pobl olygu eu bod yn wynebu gwahaniaethu yn eu bywyd pob dydd. Mae'r cyngor yn ymrwymedig i drin pobl yn deg ac yn unol â'u hanghenion ym mhob gwasanaeth. Mae 'Cynllun Iaith Gymraeg' a 'Chynllun Cydraddoldeb ac Amrywiaeth' gan y cyngor, a'u nod yw sicrhau bod pawb yn Abertawe'n cael eu trin yn deg ac yn

¹⁰ Mae trefniadau craffu'r cyngor wedi newid o 2012/13 a gellir eu gweld [yma](#).

gyfartal, ac nad oes gwahaniaethu yn erbyn pobl oherwydd eu nodweddion neu oherwydd eu bod yn wahanol.

Datblygodd y cyngor ei gysylltiadau â grwpiau cymunedol a buddiannau yn ystod 2011/12. Mae hyn wedi cynnwys ailsefydlu Fforwm Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LGBT) mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru ac wedi datblygu Grŵp Cydgysylltu Anabledau sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r prif grwpiau.

Gweithiodd y cyngor gyda Gwasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymru (WITS) i ddarparu gwasanaeth dehongli a chyfieithu dros y ffôn ac wyneb yn wyneb ar draws y cyngor o 2011 ymlaen.

Mae'r cyngor yn parhau i asesu sut bydd ei swyddogaethau, ei bolisiau a'i weithdrefnau arfaethedig yn effeithio ar grwpiau gwahanol; cafodd cyllideb y cyngor ar gyfer 2011/12 ei hasesu o safbwynt ei heffeithiau ac mae ar gael [yma](#).

Datblygu Cynaliadwy

Mae'r cyngor yn ymrwymedig i sicrhau bod ei wasanaethau'n gynaliadwy i'r sawl sy'n eu defnyddio ac i bobl Abertawe. Yn ystod 2011/12, aeth Dinas a Sir Abertawe ati i adolygu sefyllfa ei bolisiau gan ailddrafftio a mabwysiadu 'Polisi Datblygu Cynaliadwy' newydd, gan nodi'r meysydd blaenoriaeth allweddol.

Mae Dinas a Sir Abertawe wedi'i gofrestru i fod yn rhan o'r Cynllun Ymrwymiad Lleihau Carbon Effeithlonrwydd Ynni (CRC). Cesglir data ynni a charbon a chyflwynir hynny yn Ôl-troed Carbon ac Adroddiad Blynyddol y cyngor a gyflwynir i Asiantaeth yr Amgylchedd bob blwyddyn yn unol â deddfwriaeth y CRC. Mae'r cyngor yn rhan allweddol o Abertawe Carbon Isel, menter sy'n cydlynu lleihau carbon ar draws pob sector yn y ddinas; pennwyd targed o 3% i leihau carbon ar gyfer defnyddio ynni yn 2012/13 a hynny'n gyfuniad o'r defnydd o drydan a thanwydd ffosil. Mae 101 o ysgolion Abertawe wedi cofrestru ar raglen Ecosgolion; mae wyth wedi ennill y dyfarniad Platinwm uchaf - y mwyaf o bob awdurdod lleol yng Nghymru.

Cafwyd ymdrechion sylweddol i leihau'r defnydd o adnoddau prin a defnyddio deunyddiau crai ac ynni cynaliadwy yn y ffordd fwyaf effeithlon. Datblygwyd 'Strategaeth Gwastraff Dinesig 2011-16' i gyflawni targedau Llywodraeth Cymru. O fis Ebrill 2011, roedd casgliadau sachau du wythnosol yn gweithredu ar yr holl lwybrau casglu. Ymysg y mentrau lleihau gwastraff i gynnwys y cyhoedd y mae'r Ymgyrch Cewynnau Go lawn, Siop Gyfnewid/Swap Shop ar-lein a Rhaglen Ailgylchu i Ysgolion.

Mae bioamrywiaeth Abertawe o ansawdd a harddwch eithriadol. Mae amrywiaeth eang o dirweddau a chynefinoedd i'w gweld yn 80% a mwy o arwynebedd y sir. Mae Partneriaeth Bioamrywiaeth Abertawe yn gweithio i gynnal yr ymwybyddiaeth o amddiffyn bioamrywiaeth a bod yn rhan ohono. Cafodd pedwar traeth wobr y Faner Las, sef Porth Einon, Caswell, Langland a Bracelet. Yn ogystal, mae Marina Abertawe wedi ennill Baner Las. Mae pedwar o barciau Abertawe hefyd wedi ennill y Faner Werdd am safon eu glendid a'u cyfleusterau. Bwriedir cynnal y safonau hyn.

Yr awdurdod lleol hwn yw'r cyntaf yng Nghymru i ymrwymo i Addewid 'Gold Achiever for Sustainable Timber' y WWF .

Mae Hyfforddiant Cyflogaeth wedi llwyddo i gyrraedd grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd. Rydym yn buddsoddi mewn swyddogion cefnogi dysgwyr i gynnwys dysgwyr a datblygu sgiliau. Mae Swyddog Cynladwyedd Amgylcheddol a Dinasyddiaeth Fyd-eang amser llawn wedi'i benodi ac mae hyfforddiant wedi'i ymgorffori yn y cwricwlwm i ddysgwyr, staff a rheolwyr.

Ymagwedd gorfforaethol a phenodol i waith gwella

Mae'r cyngor wedi datblygu ymagwedd bwrpasol a chorfforaethol at wella perfformiad mewn meysydd lle mae angen gwelliannau sylweddol. Cafodd yr ymagwedd ei datblygu fel rhan o ymateb llwyddiannus y cyngor i welliannau a oedd yn ofynnol yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.

Mae'n cynnwys sefydlu bwrdd gwella corfforaethol o dan arweiniad y Prif Weithredwr ac aelodau perthnasol o'r uwch-dîm rheoli gyda chefnogaeth arbenigedd ar draws y cyngor. Mae hyn yn darparu llywodraethu, rheolaeth a goruchwyliaeth gweithredol i'r gwaith gwella.

Yn cydreddeg â'r bwrdd gwella corfforaethol y mae bwrdd arweinyddiaeth wleidyddol o dan gadeiryddiaeth Arweinydd y Cyngor a daw'r aelodau o blith aelodau'r Cabinet a chadeiryddion pwyllgorau/craffu perthnasol yn ogystal ag uwch-reolwyr a swyddogion corfforaethol. Mae'r bwrdd hwn yn darparu arweinyddiaeth wleidyddol a llywio i ymateb y cyngor i'r materion y mae'n rhaid mynd i'r afael â hwy.

Bydd tîm prosiect o dan arweiniad y gwasanaeth perthnasol yn rhoi cynllun gweithredu er gwella cytunedig ar waith gyda chefnogaeth gorfforaethol, a fydd fel arfer yn canolbwyntio ar berfformiad, ymgynghori â defnyddwyr a rhanddeiliaid a chymharu gwasanaethau â gweddill Cymru ac ar draws y DU.

Mae'r Bwrdd Craffu perthnasol hefyd yn gweithredu fel 'cyfaill beirniadol' i roi her i benderfyniadau gweithredol sy'n ymwneud ag ymateb y cyngor i wella.

Bydd y gwaith gwella fel arfer yn dod i ben gydag adroddiad i'r cyngor sy'n rhestru argymhellion er gwella.

Mae'r cyngor yn defnyddio'r ymagwedd hon ar hyn o bryd i ymateb i argymhelliad statudol gan Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch trefniadau Pwyllgorau Cynllunio'r cyngor.

Trefniadau'r Pwyllgorau Cynllunio

Cyflawnodd Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) adolygiad o drefniadau'r cyngor ar gyfer ei bwyllgorau cynllunio ym mis Tachwedd 2010.

Daethpwyd i'r casgliad yn yr adolygiad nad oedd penderfyniad y cyngor i gynyddu nifer y pwyllgorau cynllunio yn ddefnydd effeithlon a phriodol o adnoddau.

Canlyniad hyn oedd argymhelliad statudol yn gofyn bod y cyngor yn llunio cynllun gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r argymhellion o fewn 30 diwrnod.

Mewn ymateb i argymhellion SAC, penderfynodd y cyngor (3 Chwefror 2011) i ailsefydlu'r drefn o ddau Bwyllgor Ardal dros dro, cyn ystyried yr opsiynau yn fanylach.

Fodd bynnag, cadarnhaodd Rhybudd o Gynnig i'r cyngor ar 4 Awst 2011 mai'r drefn dros dro hon o ddau Bwyllgor Ardal oedd dull dewisol y cyngor. Dywedodd SAC nad oedd y rhesymeg dros y penderfyniad hwn yn glir ac nad oedd yn dryloyw.

Yn ogystal â chyflawni newidiadau dros dro i drefniadau ei bwyllgor cynllunio, mae'r cyngor wedi gwneud peth gwaith i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn, ond dywedodd Swyddfa Archwilio Cymru nad oedd y cyngor "wedi mynd i'r afael yn llwyr â'r argymhelliad statudol ynglŷn â threfniadau'r pwyllgorau cynllunio".

Mae'r cyngor bellach yn gweithio'n agos gyda SAC mewn ymateb i'w pryderon.

Y cynnydd hyd yn hyn:

- Penodi un Cadeirydd i'r ddau bwyllgor cynllunio i hwyluso mwy o gysondeb ynghylch penderfyniadau.
- Sefydlu bwrdd gwella corfforaethol o dan arweiniad y Prif Weithredwr.
- Sefydlu bwrdd arweinyddiaeth wleidyddol o dan arweiniad Arweinydd y Cyngor.
- Datblygu cynllun gweithredu a'i roi ar waith yn barhaus gyda chefnogaeth gorfforaethol i fynd i'r afael â'r argymhelliad statudol.
- Gweithio i adolygu'r trefniadau rheoli perfformiad yn y Gwasanaethau Cynllunio.
- Cymharu trefniadau Abertawe â chynghorau eraill Cymru a Chyngor Harrow.
- Ymgynghori â defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill ar Wasanaethau Cynllunio Abertawe.

Caiff adroddiad ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ym mis Hydref gan ddisgrifio'r opsiynau a'r argymhellion.

Rhan 4 - Cydweithredu ag eraill yn 2011/12

Bydd y cyngor bob amser yn ceisio cydweithredu â chynghorau eraill Cymru a phartneriaid er mwyn gwella gwasanaethau, rhannu gwybodaeth, manteisio ar arbenigedd a/neu ddarparu effeithlonrwydd ac arbed costau. Rydym yn cydweithredu â chynghorau eraill Cymru yn y meysydd canlynol (**nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr**):

Cyfreithiol

Rydym yn cydweithredu â'r Gwasanaeth Cyfreithiol ar y Cyd sy'n ein galluogi i rannu gwybodaeth a chael manteision effeithlonrwydd gan osgoi dyblygu.

Rydym hefyd yn gweithio ar ran cyrff cyhoeddus eraill sy'n eu galluogi i wneud arbedion drwy beidio â chyflogi'r sector preifat

Gwastraff

Rydym yn cydweithredu â siroedd Penfro, Caerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr i ddarparu gwaith trin gwastraff bwyd rhanbarthol. Bydd hyn yn rhoi ateb cost effeithiol ac yn darparu ar gyfer anghenion gwaredu gwastraff bwyd y rhanbarth am y 25 mlynedd nesaf.

Cynnal a Chadw dros y Gaeaf

Rydym yn cydweithredu â holl awdurdodau Cymru i ddarparu cydnerthu yn y gwasanaeth Cynnal a Chadw dros y Gaeaf. Mae trefniadau megis prynu halen, cydgefnogi, a gwasanaeth rhagolygon y tywydd i Gymru gyfan yn golygu rhannu arbenigedd a gwasanaeth gwell am lai o gost.

Cludiant

Mae Dinas a Sir Abertawe yn rhan o SWWITCH, y consortiwm trafndiaeth rhanbarthol, ac mae paratoi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol gyda thri awdurdod lleol arall yn ne-orllewin Cymru. Ceir cytundeb ar gynlluniau cyflwyno blynyddol ar lefel ranbarthol ar gyfer rhoi prosiectau cludiant ar waith. Mae'r cyngor yn ogystal yn rhan weithgar o sawl ymarfer cydweithredu ar gyfer gwasanaethau penodol gydag awdurdodau lleol, sy'n cynnwys caffael gwasanaethau cludiant, diogelwch ffyrdd, cerdded, beicio a chynllunio teithio.

Mae'r cyngor yn darparu gwasanaethau cynllunio a chynnal a chadw goleuadau traffig i Gyngor Castell-nedd Port Talbot. Gwneir defnydd hefyd o gontractau fframwaith rhanbarthol ar gyfer gwaith adeiladu yn Abertawe, ac mae swyddogion yn gweithio i ddatblygu contractau fframwaith rhanbarthol i wasanaethau peirianeg ac ymgynghorol. Mae awdurdodau lleol de-orllewin Cymru wedi cytuno mewn egwyddor i rannu adnoddau staff er mwyn cefnogi cyflwyno prosiectau a llyfnhau uchafbwyntiau ac isafbwyntiau gwaith, ac mae Dinas a Sir Abertawe wedi penderfynu defnyddio awdurdod cyfagos i ymgymryd â gwaith archwilio pontydd.

Dinasoedd Iach

Rydym yn gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol, partneriaid lleol ac adrannau eraill y cyngor i wella iechyd trigolion drwy fenter o'r enw Menter Dinasoedd Iach o dan Sefydliad Iechyd y Byd (WHO).

Mae Rhwydwaith Dinasoedd Iach Ewropeaidd y WHO yn cynnwys dinasoedd o gwmpas Rhanbarth Ewropeaidd Sefydliad Iechyd y Byd sydd wedi ymrwmo i iechyd a datblygu cynaliadwy: mwy na 90 o ddinasoedd a threfi mewn 30 o wledydd. Maent hefyd wedi'u cysylltu drwy rwydweithiau Dinasoedd Iach cenedlaethol, rhanbarthol, metropolitan a thematig. Nod trosgynnol y Cam V cyfredol (2009-2013) yw iechyd a chydaddoldeb iechyd yn yr holl bolisiau lleol. Y tair thema graidd yw:

- amgylcheddau gofalgar a chefnogol
- byw'n iach
- dylunio trefol iach.

Mae ymagwedd Dinasoedd Iach yn cydnabod penderfynyddion iechyd a'r angen am weithio ar y cyd ar draws sefydliadau'r sector cyhoeddus, preifat, gwirfoddol a chymunedol. Mae gweithio a meddwl fel hyn yn cynnwys cael pobl leol yn rhan o lunio penderfyniadau, ymrwymiad gwleidyddol a datblygiad sefydliadol a chymunedol, gan gydnabod bod y broses cyn bwysiced â'r canlyniadau. Cafodd cysyniad Dinasoedd Iach ei ysbrydoli a'i gefnogi gan strategaeth Iechyd i Bawb Ewropeaidd Sefydliad Iechyd y Byd.

Safonau Masnach

Rydym yn cydweithredu ag awdurdodau lleol eraill ac yn defnyddio Labordai Mesuriaeth ar y cyd yn hytrach na chadw ein rhai ein hunain. Rydym yn cynnal mentrau lles anifeiliaid ar y cyd â chynghorau cydffiniol ac yn rhan o'r grŵp Penaethiaid Safonau Masnach Cymru gyfan (WHoTS) lle gellir cynllunio mentrau cyffredin a lle gellir defnyddio darvoudion maint megis strategaethau i geisio datrys "gadael ceffylau'n anghyfreithlon" ar draws de a gorllewin Cymru. Mae'r cyngor hefyd yn cefnogi mentrau ar y cyd yr Uned Benthg Arian Anghyfreithlon, tîm y rhwystrwyr twyll, a Chyswllt Defnyddwyr cyn iddo ddod yn rhan o gyfrifoldeb Cyngor ar Bopeth. Mae Abertawe'n gweithredu rhaglen samplu ar y cyd ag awdurdodau eraill i greu a datblygu cronfa ddata ar y cyd o safonau cynnyrch yn hytrach na bod pob cyngor yn ailadrodd yr un dasg. Rydym wedi erlyn ar ran sawl awdurdod lleol i symleiddio'r broses gyfreithiol pan fo angen diogelu poblogaeth Cymru a'r amgylchedd ehangach. Mae'r cyngor yn rhan o argymhelliad WHoTS a Chyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd (DPPW) i Gynulliad Cymru ar ddewisiadau eraill ar gyfer gweithio ar y cyd.

Diogelwch Cymunedol

Rydym newydd ymuno â'r awdurdod lleol cyfagos i gyfuno swyddi staff er mwyn darparu cydlynwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol ar y cyd a hynny wedi golygu arbedion ariannol a defnyddio mentrau cyffredin. Mae'r tîm diogelwch cymunedol newydd adleoli i orsaf yr heddlu i weithio ar y cyd ac ochr yn ochr

â chydweithwyr yn yr heddlu a'r trydydd sector er mwyn cyflwyno ymagwedd fwy unedig at faterion diogelwch cymunedol. Rydym yn gweithredu fel rhan o Bartneriaeth Gymunedol Abertawe Mwy Diogel ehangach a'r fenter De Cymru Fwy Diogel fwy ei maint ynghyd â phartneriaethau diogelwch cymunedol eraill a rhanbarthau ehangach yr heddlu.

Rheoli Asedau

Rydym yn cydweithredu â holl awdurdodau lleol Cymru i wella'r gwaith o reoli ein Priffyrdd ac yn benodol, cytuno ar ystod o safonau sy'n cynnwys gwerthoedd asedau, asesiadau a rhaglenni archwilio. Bydd hyn yn y pen draw yn arwain at rwydwaith ffyrdd cryfach a mwy diogel gyda gostyngiad mewn achosion hawliadau trydydd parti.

Gwasanaethau Adeiladu ac Eiddo Corfforaethol

Mae siroedd Penfro, Caerfyrddin, Dinas a Sir Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot yn gweithio ar y cyd drwy Gydweithfa Gwasanaethau Proffesiynol De a Gorllewin Cymru i sicrhau gwella ac effeithlonrwydd gwasanaethau ym maes gwasanaethau proffesiynol pensaernïaeth a pheirianeg. Mae hyn yn cynnwys datblygu gweithio ar y cyd ar gyfer gwasanaethau dylunio, a datblygu fframweithiau adeiladu rhanbarthol.

Addysg

Mae'r gwaith o gyflwyno Gwasanaethau Gwella Ysgolion drwy gonsortiw m rhanbarthol De-orllewin a Chanolbarth Cymru - sy'n cynnwys Sir Gâr, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys ac Abertawe - yn parhau i ddatblygu.

Mae'r Fframwaith Cefnogi, Herio ac Ymyrryd Rhanbarthol (FfCHYRh/RSCIF) wedi gweithredu ar draws y rhanbarth yn 2010/11 a 2011/12, gan ddarparu ymagwedd gyson at gategoreiddio ysgolion a chynnig her a chefnogaeth i helpu'r gwella.

Mae'r gofyniad i gydlunio gwaith y Gwasanaethau Gwella Ysgolion yn mynd rhagddo i fodloni gofyniad y Gweinidog ar gyfer mis Medi 2012.

Cafwyd cytundeb ar y strwythur staffio cysylltiedig ac mae pob awdurdod cyfansoddol ar hyn o bryd yn datblygu ei gwota o staff, gan hysbysebu swyddi yn ôl y galw. Mae penodi swyddog data rhanbarthol wedi bod yn un o'r camau allweddol yn y gwasanaeth newydd. Mae datblygu gwasanaethau eraill ar y cyd a chyfleoedd i gydweithredu yn parhau.

Tai

Cafwyd Asesiad y Farchnad Dai ar y Cyd gyda Chastell-nedd Port Talbot er mwyn nodi gofynion y ddarpariaeth dai yn y dyfodol ar draws ardal Bae Abertawe'n gyfan ac ar gyfer yr holl ddaliadaethau. Mae hyn hefyd wedi arwain at arbedion ar gostau'r prosiect i'r ddau awdurdod.

Mae Prosiect Menywod Trawsffiniol wedi'i sefydlu rhwng Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr gan ddefnyddio arian Cefnogi Pobl er

mwyn darparu mynediad i lety diogel a chefnogaeth i fenywod ar draws y tri rhanbarth.

Adfywio Economaidd a Chynllunio

Rydym ar hyn o bryd yn cydweithredu ag awdurdodau lleol Castell-nedd Port Talbot, Sir Gâr a Phenfro i greu cadwyn gyflenwi leol a chyfleoedd hyfforddi a recriwtio yn ystod gwaith adeiladu'r campws gwyddoniaeth ac arloesedd. Bydd hyn yn rhannu adnoddau rhwng staff y cynghorau ac yn creu cyfleoedd lluosog yn yr ardaloedd teithio i'r gwaith.

Mae'r Tîm Polisi Cynllunio'n gweithio ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Castell-nedd Port Talbot i gwblhau adolygiad o ofynion tir twf economaidd a chyflogaeth; cynhyrchu Asesiad Marchnad Dai Strategol mwy diweddar; a dod i gytundeb ar Ardoll Isadeiledd Gymunedol ar gyfer Ardal Bae Abertawe.

Rydym hefyd yn cydweithredu â Chyngor Castell-nedd Port Talbot a Sir Gâr ar Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd ac i ffurfioli trefniadau dosrannu agregau mwynau yn y rhanbarth.

Rydym wedi defnyddio arbenigedd Cyngor Sir Gâr i ymgymryd ag Asesiad o Dirweddau Abertawe.

Rydym wedi gweithio gyda holl awdurdodau arfordirol de Cymru o Fro Morgannwg i Sir Benfro i gwblhau adolygiad o'r Cynllun Rheoli Traethlin.

Adnoddau Dynol a Datblygu Trefniadaeth

Mae Dysgu a Datblygu Corfforaethol yn gweithio ar y cyd â chynghorau Castell-nedd Port Talbot, Sir Gâr, Sir Penfro, Powys, Ceredigion a Phen-y-bont ar Ogwr yn Rhwydwaith Datblygu Gweithlu De-orllewin Cymru ar nifer o fentrau dysgu a datblygu'r gweithlu wrth geisio arbed costau a gweithio'n fwy effeithlon.

Mae'r Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Lles wedi cydweithredu â'r 16 o awdurdodau yng Nghymru a Llywodraeth Cymru i gynhyrchu Fframwaith Iechyd Galwedigaethol Consortiwm Prynu Cymru. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cydweithredu â Chyngor Casnewydd, Caerffili a Thorfaen i gynhyrchu set o gwestiynau caffael Cam 1 Iechyd a Diogelwch i gontractwyr a fydd yn gyson ar draws Cymru ac yn helpu busnesau lleol i weithio gydag awdurdodau lleol eraill Cymru.

Mae'r adran Bensiynau yn rhan o Grŵp Cyfathrebu Cronfa Bensiwn Cymru Gyfan. Mae'r wyth gronfa bensiwn yng Nghymru (gan gynnwys Abertawe) yn cydweithredu i gynhyrchu deunydd cyfathrebu safonol ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS), yn enwedig y Datganiadau Budd-daliadau Blynyddol, a thrwy hynny, rannu arbenigedd a lleihau costau.

Y Gwasanaethau Cymdeithasol

Rydym yn gweithio ar y cyd â Bwrdd Iechyd PABM ac awdurdodau lleol eraill i integreiddio gwasanaethau er mwyn defnyddio adnoddau'n well a chyflawni canlyniadau gwell i bobl, er enghraifft, gwasanaeth cyfarpar cymunedol integredig.

Rydym hefyd yn cydweithredu â PABM ac awdurdodau lleol cyfagos i gefnogi pobl ag Anableddau Dysgu, Anghenion Iechyd Meddwl, Pobl Hŷn a Phlant drwy gomisiynu gwasanaethau arbenigol yn fwy effeithiol.

Rydym yn gweithio ar y cyd â holl Awdurdodau Lleol Cymru fel rhan o Gonsortium Comisiynu Cymru i Blant (y tair 'C'), i gomisiynu lleoedd i blant sy'n derbyn gofal gyda gofawyr maeth ac mewn cartrefi i blant i gydweddu anghenion plant yn well â'r gefnogaeth sydd ar gael, cynyddu sefydlogrwydd y lleoliadau ac arbed costau.

Mae Cyngor Abertawe'n cydweithio â'r Bwrdd Iechyd, Cymdeithas Alzheimer, Canolfan Ofalwyr Abertawe, Age Concern Abertawe, Cartrefi Gofal Abertawe, y Gynghrair Comisiynu Gofal a Rhwydwaith 50+ Abertawe (grŵp cyfeirio dinasyddion) er mwyn ymateb i a hybu hawliau dynol pobl sy'n byw â dementia yn well, o ran eu trin ag urddas a pharch, a bod yn gallu mynegi dewis a rheoli eu bywydau.

Diwylliant a Thwristiaeth

Mae Dinas a Sir Abertawe'n cydweithredu â Grŵp Prif Swyddogion Cymru dros Ddifyrrwch a Hamdden (CORL) a CLILC i ddatblygu fframwaith Cyfrifo ar Sail Canlyniadau ar gyfer darparu Gwasanaethau Hamdden, Diwylliannol a Llyfrgelloedd yng Nghymru.

Mae'r cyngor hefyd wedi sefydlu gweithio ar y cyd â CBS Castell-nedd Port Talbot i ddarparu gwasanaeth Archifau unedig ar gyfer Dinas a Sir Abertawe a Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, trefniadaeth ar y cyd sydd wedi gweithredu ers 1996.

Perfformiad a Phrosiectau Strategol

Rydym yn gweithio ar y cyd â Chastell-nedd Port Talbot drwy weithredu'r Uned Gydnerthu (JRU), sy'n gyfrifol am sicrhau bod argyfyngau mawr yn effeithio llai ar ein cymunedau, gan gynyddu diogelwch y trigolion ac ymwelwyr.

Caffael

Mae'r cyngor yn cydweithio â phymtheg cyngor arall yng Nghymru drwy Gonsortium Prynu Cymru er mwyn cynyddu gwerth am arian ac arbedion effeithlonrwydd drwy gaffael gwell, gwneud y defnydd gorau o adnoddau, contractau, cydweithio a rheoli cysylltiadau â chyflenwyr.

Dinas-ranbarthau

Bu'r cyngor yn cydweithio ar ymateb rhanbarthol i'r galw am dystiolaeth. Roedd yr ymateb yn cyflwyno achos dros Ddinas-ranbarth Bae Abertawe i ysgogi twf economaidd. Mae'r cydweithio hwn wedi parhau wrth gomisiynu Strategaeth Adfywio Economaidd Ranbarthol ar y cyd.

Trydaneiddio Rheilffyrdd

Bu'r cyngor yn cydweithio â sefydliadau eraill i lobïo dros gynnwys trydaneiddio'r rheilffyrdd i orsaf Abertawe, a fydd yn byrhau amser y daith rhwng Abertawe a Llundain ac yn helpu i ddenu buddsoddiad i'r ddinas a'r sir.

Ble i gael mwy o wybodaeth

Cynllun Gwella Corfforaethol Blynyddol 2012-13

Mae'r Adran Perfformiad a Chynllunio Strategol wedi paratoi'r ddogfen hon ar ran y Cyngor. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau ar gynnwys y cynllun hwn, gallwch gysylltu â'r tîm Perfformiad Busnes, Perfformiad a Phrosiectau Strategol, drwy e-bostio : improvement@swansea.gov.uk Ffôn 01792 636852. Gellir gweld y Cynllun Gwella Corfforaethol 2012-13 llawn drwy glicio ar y ddolen ganlynol:

<http://www.abertawe.gov.uk/index.cfm?articleid=155>